Senedd Cymru
Ysgrifenyddiaeth y Siambr

Canllaw i'r Cyfarfod Llawn

Mai 2020

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd Cymru: **www.senedd.cymru/**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
Ysgrifenyddiaeth y Siambr

Canllaw i'r Cyfarfod Llawn

Mai 2020

Cynnwys

01. Y Cyfarfod Llawn 1
Amser a lleoliad 1
Busnes y Cyfarfod Llawn 1
Trefn y trafodion 1
Cofnodion ac adroddiadau ar drafodion y Cyfarfod Llawn 1
TGCh yn y Siambr 2
Cymorth TGCh yn y Siambr 2
Pleidleisio electronig 2
Meicroffonau'r Siambr 2
Clustffonau yn y Siambr 2
Defnyddio deunyddiau clyweledol yn ystod y trafodion 2
02. Cynnal dadleuon yn y Siambr 3
Egwyddorion cyffredinol 3
Cadeirydd y Cyfarfod Llawn 3
Cadeirydd dros dro 4
Llywydd dros dro 4
Siarad yn y Siambr 4
Egwyddorion cyffredinol 4
Terfynau amser 5
Ymyriadau 7
Pwyntiau o drefn 8
Datgan buddiant yn y Cyfarfod Llawn 8
A. Datgan buddiant cofrestradwy 8
B. Datgan Buddiant Perthnasol 9
03. Trefn Busnes y Cyfarfod Llawn 10
Cefndir 10
Categorïau o fusnes y Cyfarfod Llawn 10
Busnes y Llywodraeth 10
Busnes y Senedd 10
Dyrannu amser rhwng busnes y Llywodraeth a busnes y Senedd 11
Amserlen y Senedd 11
Datganiad a Chyhoeddiad Busnes 11
Agenda'r Cyfarfod Llawn 11
04. Mathau o fusnes y Cyfarfod Llawn 12

Cynigion a gwelliannau 12
Egwyddorion cyffredinol 12
Cynigion 12
Gwelliannau 12
Cyflwyno cynigion a gwelliannau 13
Dangos cefnogaeth ar gyfer cynigion a gwelliannau 13
Cynigion 'â dyddiad trafod' a chynigion 'heb ddyddiad trafod' 13
Dethol gwelliannau a'u didoli 13
Gwelliannau nas detholwyd 13
Dad-ddethol gwelliannau 14
Didoli gwelliannau 14
Gwneud cynigion a chynnig gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn 14
Gwneud cynigion a chynnig gwelliannau'n ffurfiol 14
Cynigion a gwelliannau nas cynigiwyd 15
Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl 15
Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl cyn eu cynnig 15
Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl ar ôl eu cynnig 15
Grwpio cynigion neu welliannau er mwyn eu trafod 15
Cynigion heb hysbysiad 15
Cynigion gweithdrefnol 16
Cynigion a gwelliannau deddfwriaethol 16
Cynigion o ddiffyg hyder neu ddiswyddo 16
Gweinidogion Cymru 16
Llywyddion 16
Comisiynwyr y Senedd 17
Penodiadau eraill y Senedd 17
Cynigion i atal Rheolau Sefydlog dros dro 17
Penderfyniadau ar gynigion a gwelliannau – pleidleisio 17
Pleidleisio a'r cyfnod pleidleisio 18
Y Gloch 18
Pleidleisio electronig 18
Pleidleisio drwy godi dwylo 19
Pleidleisio drwy alw'r gofrestr 19
Defnyddio'r bleidlais fwrw 19
Dilysrwydd pleidlais 19
Cyfyngiadau ar bleidleisio 19

Dadleuon **20**
Mathau o ddadleuon **20**
Amseriad a threfn dadleuon **20**
Dadleuon Aelodau **21**
Dadleuon byr **21**
Trefn y ddadl fer 21
Dadleuon Deddfwriaethol **22**
Strwythur dadl Cyfnod 1 22
Strwythur dadl Cyfnod 3 / Cyfnod adrodd 23
Cyfnod 4 – Y Cyfnod terfynol 23
Cydsyniad Brenhinol 23
Cwestiynau llafar **24**
Cefndir 24
Amserlen ar gyfer cwestiynau llafar 24
Cyflwyno cwestiynau llafar 24
Trafodion sesiynau cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn **25**
Amser ar gyfer cwestiynau 25
Cwestiynau atodol 25
Cwestiynau'r arweinwyr 25
Cwestiynau'r llefarwyr 25
Cwestiynau wedi'u grwpio 26
Cwestiynau caeëdig 26
Atebion i gwestiynau 26
Tynnu cwestiynau'n ôl neu eu trosi i'w hateb yn ysgrifenedig 27
Cwestiynau nas gofynnwyd 27
Cwestiynau nas cyrhaeddwyd 27
Cwestiynau Ysgrifenedig **27**
Datganiadau llafar **27**
Mathau o ddatganiadau llafar 27
Hysbysiad am ddatganiadau llafar 28
Amseru a hyd datganiadau llafar 28
Cwestiynau am ddatganiadau llafar 28
Ymyriadau yn ystod datganiadau llafar 28
Datganiadau personol 28
Datganiadau ysgrifenedig **29**
Materion brys **29**

Cwestiynau llafar brys 29
Meini prawf ar gyfer cwestiynau llafar brys 29
Amser ar gyfer cwestiynau llafar brys 29
Cwestiynau atodol i gwestiynau llafar brys 29
Grwpio cwestiynau llafar brys 30
Dadleuon brys 30
Y ddadl frys ei hun 30

01.Y Cyfarfod Llawn

Amser a lleoliad

1. Cynhelir Cyfarfodydd Llawn yn y Siambr, sef siambr drafod y Senedd bob prynhawn Mawrth a Mercher yn ystod yr wythnosau pan mae'r Senedd yn eistedd. Fel arfer, bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau am 13.30 a bydd yn cael ei gynnal yn gyhoeddus bob amser.[1]

2. Bydd holl Aelodau'r Senedd yn bresennol mewn Cyfarfod Llawn a dyma un o'r prif ddulliau i Aelodau ddwyn Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd i gyfrif, deddfu ar gyfer Gymru a chynrychioli eu hetholwyr.

3. Fel arfer, mae'r gloch yn cael ei chanu 10 munud a 5 munud cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn a 5 munud cyn i'r trafodion ailddechrau yn dilyn unrhyw gyfnod o atal dros dro.

4. Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd eistedd yn yr oriel gyhoeddus i arsylwi'r Cyfarfod Llawn; gellir trefnu lle yn yr oriel gyhoeddus hyd at dair wythnos cyn y cyfarfod ac fe'ch cynghorir i wneud hynny er mwyn sicrhau lle (anfonwch e-bost at **contact@senedd.cymru** neu ffoniwch y Llinell Archebu ar 0300 200 6565).

5. Mae hefyd yn bosib wylio'r Cyfarfod Llawn yn fyw ar **http://senedd.tv** neu ar y setiau teledu a ddarperir ar draws ystâd y Senedd.

Busnes y Cyfarfod Llawn

6. Mae busnes y Cyfarfod Llawn yn cynnwys:

– cynigion i'w trafod a/neu bleidlais, ac unrhyw welliannau cysylltiedig;

– cwestiynau llafar i'r Prif Weinidog, Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiynwyr y Senedd;

– datganiadau; a

– thrafodion deddfwriaethol.

Mae eglurhad manylach ar bob un o'r rhain yn Adran 4 isod.

Trefn y trafodion

7. Caiff gweithdrefnau'r Senedd eu rheoli gan ei Reolau Sefydlog. Mae'r rheolau hyn yn ystyried unrhyw ddarpariaethau perthnasol a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cofnodion ac adroddiadau ar drafodion y Cyfarfod Llawn

8. Cedwir cofnod o'r holl fusnes yn y Cyfarfod Llawn a'i gofnodi'n unol â Rheol Sefydlog 31. Cyfeirir at y cofnod hwn fel 'y Cofnod o Drafodion', neu'n syml, fel 'y Cofnod'.

9. Cyhoeddir y Cofnod o fewn 24 awr i ddiwedd y cyfarfod. Mae'n cynnwys cyfleuster cyfeirio at adrannau perthnasol o senedd.tv, a gellir ei agor drwy wefan y Senedd.

10. Mae crynodeb o'r busnes a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn y ddogfen 'Pleidleisiau a Thrafodion', a gaiff ei chyhoeddi fel arfer o fewn 30 munud i ddiwedd pob cyfarfod. Mae'n

[1] Os na fydd Cyfarfod Llawn wedi'i amserlennu ar gyfer dyddiad neu amser penodol, fel yn ystod toriad, caiff y Llywydd, ar gais y Prif Weinidog, gynnull y Senedd i ystyried mater sydd o bwys cyhoeddus brys.

cynnwys manylion am gwestiynau llafar sydd wedi'u gofyn, a chanlyniadau pleidleisiau ar gynigion a gwelliannau. Mae 'Crynodeb o Bleidleisiau' manwl – sy'n dangos sut y pleidleisiodd pob un o'r Aelodau ar eitemau penodol (neu a wnaethant bleidleisio o gwbl) – yn cael ei gyhoeddi fel arfer o fewn 30 munud i ddiwedd pob cyfarfod. Cyhoeddir y fersiwn derfynol gwbl ddwyieithog, gyda phob cyfraniad yn y ddwy iaith, o fewn pum niwrnod gwaith.

TGCh yn y Siambr

11. Siambr drafod electronig yw'r Siambr. Mae system gyfrifiadurol wedi'i neilltuo yn gweithredu yn y Siambr ac mae modd cael gafael ar yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i drafodion y Cyfarfod Llawn ar gyfrifiadur unigol pob aelod. Mae gan Aelodau fynediad llawn at weddill eu system TGCh yn y Siambr hefyd.

12. Yn yr un modd, darperir yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y Llywydd i gadeirio Cyfarfod Llawn yn electronig ar ei chyfrifiadur yn y Siambr.

Cymorth TGCh yn y Siambr

13. Mae aelodau o'r tîm TGCh ar gael yn y Siambr 15 munud cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn, ac am 10 munud cyntaf pob sesiwn i helpu gydag unrhyw faterion. Mae cymorth technegol ar gael trwy gydol y cyfarfod pe byddai unrhyw broblemau yn codi, neu os bydd angen cymorth pellach. Gall Aelodau ofyn am gymorth drwy neges electronig o'u cyfrifiadur.

Pleidleisio electronig

14. Mae'r rhan fwyaf o'r pleidleisio yn y Siambr yn digwydd yn electronig. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y system bleidleisio electronig ym mharagraffau 143-146.

Meicroffonau'r Siambr

15. Mae microffon sefydlog wedi'i gysylltu wrth ddesg pob Aelod yn y Siambr. Caiff y microffonau eu defnyddio ar gyfer recordio a darlledu'r Cyfarfod Llawn, chwyddo sain yn y Siambr a sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.

16. Dylai pob meicroffon gael ei adael yn y lle cywir fel y'u gosodwyd gan y peiriannydd sain cyn y cyfarfod. Ni ddylid eu gwthio i ffwrdd oddi wrth y ddesg neu eu rhoi y tu ôl i'r cyfrifiaduron hyd yn oed os nad yw Aelodau yn rhagweld cymryd rhan mewn dadl.

Clustffonau yn y Siambr

17. 14. Mae clustffonau wedi'u darparu i'r holl Aelodau i'w defnyddio i chwyddo'r sain yn y Siambr neu i wrando ar y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Mae clustffonau unigol wedi'u mowldio ar gael ar gais.

Defnyddio deunyddiau clyweledol yn ystod y trafodion

18. Mae'r cyfleusterau TGCh yn y Siambr yn rhoi cyfle i Aelodau ddefnyddio deunydd clyweledol yn ystod trafodion, er mwyn ategu eu hareithiau. Gall yr Aelodau ddefnyddio'r sgriniau yn y Siambr i ddangos ffilmiau neu gyflwyniadau electronig sy'n berthnasol i'r eitem arbennig honno o fusnes. Mae unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddir yn destun y rheolau arferol o ran trefn (gweler adran 2 am ragor o wybodaeth am y rheolau ymddygiad

a threfn yn y Siambr) a rhaid iddynt gydymffurfio â chanllawiau'r Llywydd ar gynnwys clyweledol sydd ar gael yn y **Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd**.

19. Bydd y Llywydd yn cymeradwyo unrhyw ddeunydd ar sail pob achos unigol a bydd yn penderfynu ar dderbyniadwyedd y deunydd hwnnw.

02.Cynnal dadleuon yn y Siambr

20. Mae'r rheolau ar gyfer ymddygiad a dadleuon yn y Siambr yn dod o dan Reol Sefydlog 13. Yr egwyddorion allweddol yw:

- Rhaid i Aelodau bob amser, drwy eu hymddygiad, hyrwyddo parch at y Senedd a dangos parch a chwrteisi tuag at Aelodau eraill;
- Rhaid i aelodau gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Llywydd ynghylch ymddygiad a threfn yn y Cyfarfodydd Llawn.

Egwyddorion cyffredinol

21. Yn ogystal, mae'r pwyntiau canlynol yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud â phresenoldeb Aelodau mewn Cyfarfodydd Llawn, a'u cyfranogiad ynddynt:

- Dylai Aelodau roi blaenoriaeth i fynychu Cyfarfodydd Llawn;
- Ni all Aelodau ddod â bwyd, diod (ac eithrio'r gwydrau o ddwr a ddarperir) nac offer electronig sy'n amharu i mewn i'r Siambr;
- Gall aelodau siarad mewn trafodion dim ond pan fydd y Llywydd yn eu galw i wneud hynny;
- gelwir siaradwyr yn ôl disgresiwn y cadeirydd;
- dim ond un Aelod a all siarad ar y tro;
- caiff Aelodau siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg;
- caiff Aelodau a elwir i siarad gan y Llywydd naill ai sefyll neu eistedd yn eu lle a rhaid iddynt annerch y cadeirydd;
- pan fydd y Llywydd yn siarad, ni chaiff yr Aelodau siarad ac os ydynt yn sefyll rhaid iddynt eistedd yn eu seddau;
- disgwylir i Aelodau sy'n dymuno siarad fod yn bresennol yn y Siambr drwy gydol yr eitem o fusnes.

Cadeirydd y Cyfarfod Llawn

22. Caiff y Cyfarfodydd Llawn eu cadeirio gan y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd. Mae'n rhaid iddynt gadeirio'n ddiduedd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.19, gan sicrhau bod trefn yn cael ei chadw bob amser a bod hawliau holl Aelodau o'r Senedd wedi'u diogelu. Bydd y Llywyddion yn:

- sicrhau bod y busnes yn cael ei drin ar sail cydraddoldeb a thegwch i bob grŵp gwleidyddol ac Aelod;

- cadw trefn, yn galw Aelodau yn ôl eu disgresiwn tra'n sicrhau bod buddiannau pob Aelod yn cael eu trin yn gyfartal;
- disgyblu unrhyw Aelodau o'r Senedd neu aelodau o'r cyhoedd sy'n ymddwyn yn groes i'r drefn, yn unol â Rheol Sefydlog 13, sy'n caniatáu i'r Llywydd wahardd Aelodau o drafodion y Senedd os oes angen;
- penderfynu a yw busnes mewn trefn, gan ymateb i unrhyw bwyntiau o drefn a godwyd gan Aelodau'r Senedd (gweler paragraffau 56-59 i gael rhagor o wybodaeth am bwyntiau o drefn) a gwneud penderfyniadau ar unrhyw gwestiwn ynghylch a yw mater yn fusnes y Senedd neu'n fusnes y llywodraeth yn unol â Rheol Sefydlog 11.20;
- dehongli unrhyw Reolau Sefydlog sy'n berthnasol i'r trafodion, ac os bydd angen penderfynu ar sut y dylid eu cymhwyso; a
- chynnal holl bleidleisiau'r Cyfarfod Llawn (gweler paragraffau 139-154 i gael rhagor o wybodaeth am bleidleisio).

Cadeirydd dros dro

23. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.22, caiff unrhyw Aelod, ac eithrio aelod o'r llywodraeth, ar gais y Llywydd neu'r Dirprwy, gadeirio'r Cyfarfod Llawn dros dro. Y cynsail ers 2007 yw bod Comisiynydd y Senedd yn cadeirio ar achlysuron o'r fath.

24. Mae Rheol Sefydlog 6.23 yn caniatáu i gadeirydd dros dro gadeirio eitemau dilynol, a 'gofyn y cwestiwn' i bleidleisio ar gynnig ar ddiwedd dadl (yn unol â Rheolau Sefydlog 12.36 a 12.37). Fodd bynnag, ni all cadeirydd dros dro gadeirio'r "Cyfnod Pleidleisio", ddyfarnu o ran pwyntiau o drefn na chaniatáu i gynnig gweithdrefnol gael ei wneud. Mewn achosion o'r fath, byddai angen cyfeirio'r eitem i'r Llywydd reoli arni, neu, pe bai angen, atal y cyfarfod dros dro nes bo'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn dychwelyd i'r Siambr.

Llywydd dros dro

25. Os bydd y Llywydd a'r Dirprwy ill dau'n methu â gweithredu am gyfnod hir (hynny yw, cyfnod a fyddai'n hwy na'r hyn sy'n briodol i gadeirydd dros dro gadeirio Cyfarfod Llawn), caiff y Senedd ethol Llywydd dros dro yn unol â Rheol Sefydlog 6.24.

26. Fel arfer, bydd ethol Llywydd dros dro'n digwydd ar ddechrau Cyfarfod Llawn. Os bydd y naill Lywydd neu'r llall yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod, caiff yr etholiad ei gadeirio ganddo ef. Os nad yw'r naill na'r llall yn gallu gweithredu, bydd y Clerc yn cadeirio'r etholiad.

27. Caiff unrhyw Aelod a etholir yn Llywydd dros dro o dan Reol Sefydlog 6.24 arfer holl swyddogaethau'r Llywydd.

Siarad yn y Siambr

Egwyddorion cyffredinol

28. Caniateir i'r holl Aelodau siarad mewn Cyfarfod Llawn ac fe'u gelwir yn ôl disgresiwn y Llywydd. Bydd Aelodau sy'n dymuno cyfrannu at drafodion yn hysbysu'r Llywydd ymlaen llaw.

29. Wrth alw Aelodau i siarad, bydd y cadeirydd yn rhoi sylw i gydbwysedd cynrychiolaeth y pleidiau yn y Senedd.

30. Fel egwyddor gyffredinol, rhaid i bob araith fod yn berthnasol i fusnes, yn gryno ac osgoi ailadrodd diflas (Rheol Sefydlog 13.4).

31. Fel arfer, caiff Aelod siarad unwaith yn unig ar unrhyw fater oni bai mai ef sydd wedi gwneud y cynnig, a'i fod yn dymuno arfer yr hawl i ateb neu, gyda chaniatâd y Llywydd, yn dymuno egluro'n fyr ryw bwynt perthnasol yn ei araith wreiddiol (Rheol Sefydlog 13.6).

32. Dim ond ar ôl cael eu galw i siarad gan y Llywydd y caiff Aelodau siarad a dim ond un Aelod a gaiff siarad ar y tro. Caiff Aelodau a elwir i siarad naill ai sefyll neu eistedd yn eu lle a rhaid iddynt annerch y Llywydd yn hytrach nag Aelodau eraill.

33. Ni chaiff Aelod siarad pan fydd y Llywydd yn siarad ac, os yw'n dymuno siarad ar unrhyw eitem o fusnes, rhaid iddo fod yn bresennol yn y Siambr drwy gydol yr eitem honno.

34. Bydd unrhyw Aelod sy'n defnyddio iaith sy'n groes i'r drefn yn cael ei alw i drefn gan y Llywydd, a bydd yn rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r Llywydd yn eu rhoi ynghylch ei ymddygiad. Fel arfer, bydd y Llywydd yn gofyn i'r Aelod dynnu'r sylwadau y credir eu bod yn groes i'r drefn yn ôl neu eu haralleirio, ac ymddiheuro os yw'n briodol.

35. Caiff Aelodau siarad yn Gymraeg neu Saesneg. Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu i Aelodau drwy eu clustffonau yn y Siambr.

36. Ni fwriedir i ddadleuon fod yn gyfres o areithiau penodol ac nid yw'n ddymunol i Aelodau ddarllen areithiau a baratowyd heb ystyried cyfraniadau cynharach. Mae'n gwrtais i Aelodau aros i glywed unrhyw sylwadau a wneir mewn ymateb i'w hareithiau. Dylai Aelodau roi gwybod i'r cadeirydd o flaen llaw os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol ar gyfer y ddadl gyfan a dylent hefyd ymddiheuro i'r Siambr.

Gofyn i gael siarad drwy e-bost

37. Gall Aelodau wneud eu ceisiadau i siarad cyn y Cyfarfod Llawn drwy gysylltu â thîm Ysgrifenyddiaeth y Siambr (gweler y **Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd** i gael rhagor o wybodaeth).

Gofyn i gael siarad trwy system negeseuon y Siambr

38. Mae gan Aelodau fynediad at system negeseua gwib yn y Siambr. Gall y system negeseuon hon gael ei defnyddio i ofyn am gael siarad yn ystod trafodion. Dylai'r Aelodau nodi yn glir yn eu cais i siarad at ba eitem benodol y maent yn dymuno cyfrannu.

Terfynau amser

39. Yn ystod y rhan fwyaf o eitemau busnes, rhoddir terfynau amser i Aelodau ar eu cyfraniadau, a osodir gan y Llywydd yn ôl y math o fusnes. Mae terfynau amser yn cael eu gosod gan y Llywydd yn unol â Rheol Sefydlog 13.5, yn ôl y math o fusnes, a hysbysir y rhain i Aelodau. Y terfyn amser safonol fel arfer yw 5 munud, neu 10 munud ar gyfer dadleuon Cyfnod 3. Gall Ysgrifenyddiaeth y Siambr gynghori'r Aelodau ar faint o amser y byddant yn ei gael fel arfer i siarad.

40. Os derbynnir llawer o geisiadau i siarad, gallai'r Llywydd leihau'r terfyn amser hwn. Bydd hyn fel arfer yn cael ei gyhoeddi cyn yr eitem y mae'r terfyn amser yn ymwneud â hi. Caiff y Llywydd gyfarwyddo Aelod sydd wedi mynd y tu hwnt i'w derfyn amser i roi'r gorau i siarad.

41. Mae cloc y Siambr yn amseru pob siaradwr, gan droi'n goch i ddangos bod amser yr Aelod ar ben.

Iaith ac Ymddygiad

42. Yn unol â Rheol Sefydlog 13.9, y Llywydd sydd i gadw trefn yn y Cyfarfod Llawn a rhaid galw i drefn unrhyw Aelod:

    i. sy'n ymddwyn mewn ffordd a fyddai, ym marn y Llywydd, yn gyfystyr â thramgwydd troseddol neu ddirmyg llys;

    ii. sy'n rhwystro busnes y Senedd;

    iii. sy'n ceisio codi mater sydd y tu hwnt i gwmpas y ddadl neu'r cynnig;

    iv. sy'n euog o ymddygiad anghwrtais neu amhriodol;

    v. sy'n defnyddio iaith sy'n groes i'r drefn, iaith sy'n gwahaniaethu neu sy'n peri tramgwydd, neu iaith sy'n amharu ar urddas y Senedd;

    vi. sy'n gwrthod cydymffurfio ag unrhyw Reol Sefydlog neu ag unrhyw ofyniad arall ynglŷn ag ymddygiad Aelodau; neu

    vii. sy'n anwybyddu awdurdod y cadeirydd.

43. Bydd y Llywydd yn penderfynu beth yw iaith sy'n groes i'r drefn; fodd bynnag, bydd cyfeiriadau hiliol neu rywiaethol yn cael eu hystyried yn wahaniaethol ac yn sarhaus.

44. Rhaid i Aelodau gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Llywydd ynghylch unrhyw ymddygiad y mae wedi cael ei alw i drefn yn ei gylch (Rheol Sefydlog 13.10).

45. O dan Reol Sefydlog 13.11, caiff y Llywydd hefyd ofyn i Aelod ymneilltuo o drafodion y Senedd am weddill y dydd os yw'n ystyried bod ymddygiad yr Aelod yn cyfiawnhau ymneilltuo.

46. Os nad yw Aelod yn ymneilltuo o'r trafodion pan fydd y Llywydd yn gofyn iddo wneud hynny, gall cynnig i wahardd yr Aelod o drafodion y Senedd gael ei gynnig gan y Llywydd a rhaid pleidleisio arno ar unwaith. Os derbynnir y cynnig, bydd yr Aelod yn cael ei eithrio ar unwaith yn unol â Rheol Sefydlog 13.13.

47. Yn ystod cyfnod gwaharddiad Aelod ni fydd gan yr Aelod hawl i gael cyflog gan y Senedd ac ni fydd ganddo'r hawl i fynychu unrhyw drafodion y Senedd (Rheol Sefydlog 13.14).

48. O dan Reol Sefydlog 12.18, mewn unrhyw achos lle mae'r Llywydd yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny (gan gynnwys unrhyw achos o anhrefn difrifol mewn Cyfarfodydd Llawn), gall ohirio'r trafodion heb gynnal pleidlais ar unrhyw gynnig, neu gall atal y trafodion dros dro am amser penodedig.

Braint absoliwt

49. O dan adran 42(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, at ddibenion y gyfraith ar ddifenwi, mae unrhyw ddatganiad a wneir yn nhrafodion y Senedd o dan fraint lwyr. Fel arfer, bydd honiadau personol yn erbyn Aelodau neu unigolion eraill yn cael eu hystyried yn dramgwyddus; mae hyn yn cynnwys honiadau o yngan anwireddau, honiadau o arferion llwgr neu annheg neu anghyfreithlon a honiadau o gamliwio bwriadol.

Sub judice

50. Yn unol â Rheol Sefydlog 13.15, gwaherddir Aelodau rhag codi neu ddilyn mewn Cyfarfodydd Llawn unrhyw fater sy'n ymwneud ag achosion llys gweithredol (fel y diffinnir gan Atodlen 1 i'r Ddeddf Dirmyg Llys 1981), neu os bydd Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi penderfynu cynnal archwiliad i achos, tan yr adeg pan fydd dyfarniad wedi'i roi neu pan fydd adroddiad wedi'i wneud gan y naill Gomisiynydd neu'r Ombwdsmon, oni bai bod y Llywydd yn fodlon bod:

    i. bod gan y mater berthynas glir â mater o bwys cyhoeddus cyffredinol neu fod penderfyniad gweinidogol o dan sylw; a

    ii.nad yw'r mater yn ymwneud ag achos sydd i'w wrando, neu sy'n cael ei wrando, gerbron llys troseddau neu gerbron rheithgor neu ag achos sydd i'w wrando, neu sy'n cael ei wrando, mewn achos teuluol; a

    iii.nad yw'r Aelod, yn ei sylwadau, yn creu risg real a sylweddol o ragfarnu achos llys, naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas ag achos penodol.

Cysylltiadau â'r Farnwriaeth

51. Yn unol â Rheol Sefydlog 13.16, rhaid i'r Aelodau beidio, mewn Cyfarfodydd Llawn, â beirniadu ymddygiad barnwyr llysoedd y Deyrnas Unedig wrth iddynt gyflawni eu swyddogaeth farnwrol.

52. Yn ogystal, o dan Reol Sefydlog 13.17, rhaid i'r Senedd beidio â thrafod penodiadau barnwrol unigol.

Aelodau nad ydynt yn siarad mewn dadl

53. Bydd disgwyl i Aelodau nad ydynt yn siarad i wrando'n gwrtais ar y ddadl ac ni ddylent dorri ar draws yr Aelod sy'n siarad.

54. Dylai unrhyw negeseuon gan swyddogion neu staff y tu allan i'r Siambr gael eu hanfon yn electronig at yr Aelod neu eu trosglwyddo i'r tywyswyr yn y Siambr.

Ymyriadau

55. Yn unol â Rheol Sefydlog 13.7, gall Aelod sy'n siarad ildio i Aelod arall sy'n dymuno ymyrryd. Diben ymyriadau yw cael eglurhad ar unrhyw sylwadau a wneir gan yr Aelod sy'n siarad. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol nad oes unrhyw hawl i ymyrryd ac nid yw'n fater i'r Llywydd os yw'r Aelod sy'n siarad yn gwrthod ildio.

Pwyntiau o drefn

56. Gall pwynt o drefn yn ymwneud â rheolau gweithdrefnau'r Senedd gael ei godi gan unrhyw Aelod ar unrhyw adeg yn ystod trafodion y Cyfarfod Llawn. Y diben yw ceisio eglurhad gan y Llywydd ynghylch y dehongliad o'r Rheolau Sefydlog a rheolau'r Senedd. Rhaid i bob pwynt o drefn gael ei gyfeirio at y Llywydd a dylai gyfeirio at y Rheol Sefydlog perthnasol y mae'r pwynt yn ymwneud ag ef.

57. Mae'n well i Aelodau roi hysbysiad ymlaen llaw i'r Llywydd os ydynt yn dymuno codi pwynt o drefn. Bydd y Llywydd yn dyfarnu ar bwynt o drefn yn ôl ei ddisgresiwn, a chaiff nodi y bydd yn edrych yn y Cofnod o Drafodion ac yn ymateb ar lafar neu'n ysgrifenedig maes o law.

58. Ni ddylai pwyntiau o drefn gael eu codi fel modd o geisio:

- codi materion gwleidyddol nad ydynt yn berthnasol i'r Llywydd;
- ymestyn amser y cwestiynau; neu
- ymyrryd ar eitem pan fo'r Aelod sy'n gyfrifol wedi gwrthod ildio o'r blaen.

59. Os bydd Aelod yn dymuno codi pwynt o drefn ynghylch Aelod arall, dylid rhoi hysbysiad i'r Aelod hwnnw fel mater o gwrteisi.

Datgan buddiant yn y Cyfarfod Llawn

60. Mae cyngor ar gofrestru a datgan buddiannau Aelodau ar gael gan y Swyddfa Gyflwyno.

61. Cyfrifoldeb yr Aelod Unigol yw barnu a yw buddiant yn ddigon perthnasol i ddarn o drafodion penodol fel bod yn rhaid ei ddatgan.[2] Gall aelodau wneud datganiadau llafar o ran naill ai buddiannau cofrestradwy neu fuddiannau perthnasol - gweler A a B isod.

A. Datgan buddiant cofrestradwy

62. Mae'n **rhaid i ddatganiad llafar o fuddiant cofrestradwy** gael ei wneud cyn cymryd rhan mewn unrhyw **drafodion y Senedd** os bodlonir y meini prawf isod. Hynny yw, os:

A

i. yw'r buddiant wedi'i nodi ym mharagraff 5 yr Atodiad i Reol Sefydlog 2.

ii. gallai penderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol.[3]

63. Yr egwyddor gyffredinol yw bod angen gwneud datganiadau dim ond os oes gan yr Aelod:

[2] RhS 2.6
[3] RhS 2.6 - 2.7

i. mantais ariannol yn y mater ac y bydd yn cael mantais ariannol **a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i etholwyr yn gyffredinol;** neu

ii. **bod yr Aelod yn disgwyl cael mantais ariannol yn y dyfodol** a fydd yn arwain ato yn cael mantais ariannol **a allai ddod i etholwyr yn gyffredinol.**

64. Os yw Aelod yn penderfynu bod angen datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2, **dylai'r Aelod ddatgan cyn iddo/iddi siarad am y tro cyntaf ar bob eitem berthnasol ar yr agenda** ond nid bob tro y mae'n siarad wedi hynny yn ystod eitem benodol o fusnes**. Dylai natur y datganiad roi digon o wybodaeth** i alluogi'r gwrandäwr i ddeall natur y buddiant sy'n cael ei ddatgan.

65. Os yw'r Aelod wedi datgan buddiant ffurfiol o dan Reol Sefydlog 2 (p'un a yw'n angenrheidiol neu beidio) ni ddylai'r Aelod hwnnw **bleidleisio ar yr eitem honno, yn unol â Rheol Sefydlog 2.9.**

66. **Mae'n bwysig nodi bod cymryd rhan mewn trafodion heb gydymffurfio â'r gofynion hyn yn drosedd fel y nodir yn Adran 36(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.**

B. Datgan Buddiant Perthnasol

67. Mae Rheol Sefydlog 13.8A ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddatgan ar lafar unrhyw 'fuddiannau perthnasol' yn ystod trafodion y Cyfarfod Llawn. Diffinnir y rhain fel buddiannau y gellir ystyried yn rhesymol gan eraill eu bod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod i'r ddadl neu'r drafodaeth. Os bydd gan Aelod fuddiant perthnasol, bydd angen iddo ei ddatgan ar adeg briodol yn ystod y cyfraniad y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef.

68. Dylai Aelod hefyd ddatgan buddiant perthnasol cyn pleidleisio, *oni bai bod*:

i. y buddiant eisoes wedi cael ei ddatgan fel rhan o gyfraniad llafar yr Aelod at y ddadl; a / neu

ii. y buddiant wedi cael ei gofrestru gan yr Aelod yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau (ac felly bydd eisoes yn gyhoeddus). Sylwch, fodd bynnag, fod peidio â datgan buddiant perthnasol ar y sail ei fod eisoes wedi cael ei gofrestru ond yn gymwys mewn perthynas â phleidleisio (er mwyn osgoi cael effaith anghymesur ar drafodion). Nid yw'n berthnasol i siarad.

69. Yn wahanol i'r gofynion ar gyfer datgan unrhyw fuddiant perthnasol o dan Reol Sefydlog 2.6 a 2.7, nid yw methu â datgan buddiant yn y dyfodol neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13.8A a 17.24A yn drosedd o dan Ddeddf 2006, ond *gallai fod yn destun cwyn i'r Comisiynydd Safonau*.

70. Os yw Aelodau yn ansicr o gwbl ynghylch eu buddiannau, neu a oes angen datganiad ffurfiol, dylent ymatal rhag cymryd rhan neu bleidleisio.

71. Nid yw'r Llywydd yn dyfarnu nac yn cynghori Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â chofrestru a datgan buddiannau. Bydd y Swyddfa Gyflwyno a'r Comisiynydd Safonau yn gallu rhoi cyngor i Aelodau ar faterion o'r fath.

03.Trefn Busnes y Cyfarfod Llawn

Cefndir

72. Mae busnes a drafodir mewn Cyfarfodydd Llawn yn cael ei amserlennu gan y Pwyllgor Busnes.

73. Cadeirydd y Pwyllgor Busnes yw'r Llywydd a'i aelodau yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth a Rheolwr Busnes o bob un o'r grwpiau a gynrychiolir yn y Senedd. Fel arfer, mae'r pwyllgor yn cwrdd yn breifat bob bore Mawrth i drafod y cynigion ar gyfer trefn busnes y Llywodraeth a chytuno ar drefn busnes y Senedd yn y Cyfarfod Llawn am y tair wythnos nesaf.

74. Mae rhagor o wybodaeth am rôl a gweithrediadau'r Pwyllgor Busnes ar **wefan** y Senedd.

Categorïau o fusnes y Cyfarfod Llawn

75. Mae'r Rheolau Sefydlog yn diffinio dau gategori o fusnes y Cyfarfod Llawn: busnes y Llywodraeth a busnes y Senedd.

Busnes y Llywodraeth

76. Mae busnes y llywodraeth yn cynnwys:

- cwestiynau llafar (ac eithrio cwestiynau llafar i Gomisiwn y Senedd);
- datganiadau gan aelod o'r Llywodraeth;
- deddfwriaeth lle bydd yr Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth yn aelod o'r Llywodraeth;
- unrhyw gynnig a gyflwynir gan aelod o'r Llywodraeth, ac
- unrhyw ddadl frys a gynigir gan un o aelodau'r Llywodraeth;

Busnes y Senedd

77. Mae busnes y Senedd yn cynnwys pob eitem o fusnes ac eithrio'r rheini a amlinellir uchod. Dyma rai enghreifftiau:

- adroddiadau pwyllgorau;
- deddfwriaeth lle nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth yn aelod o'r Llywodraeth;
- dadleuon byr; ac
- unrhyw gynnig a gyflwynir gan Aelod nad yw'n aelod o'r Llywodraeth.

Dyrannu amser rhwng busnes y Llywodraeth a busnes y Senedd

78. Er mwyn sicrhau bod amser y Cyfarfod Llawn yn cael ei rannu'n deg rhwng busnes y llywodraeth a busnes y Senedd, mae Rheol Sefydlog 11.17 yn dweud bod yn rhaid, yn ystod blwyddyn Senedd, cadw at y gymhareb 3:2 wrth rannu cyfanswm yr amser sydd ar gael ar gyfer y naill a'r llall, yn y drefn honno. Fel arfer, rhaid trafod busnes y Llywodraeth yn gyntaf.

Amserlen y Senedd

79. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.9, mae'r Pwyllgor Busnes yn cyhoeddi amserlen, am gyfnodau o ddim llai na chwe mis, y mae'n rhaid iddi gynnwys y canlynol:

- amlinelliad o amserlenni'r Cyfarfod Llawn:
- pennu'r amseroedd sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor;
- pennu'r amseroedd sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol;
- dyddiadau'r toriadau; a
- y dyddiadau ar gyfer cwestiynau i'w hateb ar lafar gan y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Senedd.

80. Cyhoeddir yr amserlen ar **wefan** y Senedd.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

81. Mae'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes yn amlinellu busnes y Cyfarfod Llawn am gyfnod o dair wythnos. Mae'r wythnos gyntaf yn cynnwys y busnes y cytunwyd arno ar gyfer Cyfarfod Llawn yr wythnos ddilynol. Ar gyfer y ddwy wythnos ddilynol, mae rhestrau dros dro o fusnes, sy'n agored i'w newid.

82. Gwneir y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes yn y Cyfarfod Llawn bob wythnos gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth, yn unol â Rheol Sefydlog 11.11. Caniateir i Aelodau ofyn cwestiynau am y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes. Mae hyn yn gyfle i Aelodau ofyn i'r Llywodraeth wneud datganiad neu gynnal dadl yn y Siambr ar fater sy'n peri pryder iddynt.

Agenda'r Cyfarfod Llawn

83. Mae rhestr fanwl o'r holl eitemau busnes i'w cael yn Agenda'r Cyfarfod Llawn a gaiff ei baratoi ar gyfer pob cyfarfod. Mae'r Agenda yn rhestru'r holl fusnes yn y drefn y caiff ei ystyried ac yn cynnwys linc at unrhyw ddogfennau sydd wedi'u nodi fel rhai perthnasol i'r busnes o dan sylw.

84. Caiff Agenda'r Cyfarfod Llawn ei gyhoeddi wythnos cyn y cyfarfod fel arfer, a gellir ei ddiweddaru ar unrhyw adeg hyd at ddechrau'r Cyfarfod Llawn perthnasol, neu hyd yn oed yn ystod y cyfarfod ei hun. Os newidir Agenda'r Cyfarfod Llawn, rhoddir rhif fersiwn newydd ar yr Agenda perthnasol a chaiff ei ailgyhoeddi ar wefan y Senedd. Bydd rhybudd e-bost yn cael ei anfon at y rhai sydd wedi gofyn i gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i fusnes y Cyfarfod Llawn.

85. Os bydd Agenda'r Cyfarfod Llawn yn newid o fewn awr o ddechrau'r Cyfarfod Llawn (neu yn ystod Cyfarfod Llawn), caiff Aelodau eu hysbysu drwy e-bost.

86. Mae Agendâu'r Cyfarfod Llawn ar gael i bob Aelod yn y Siambr drwy'r system TG.

04.Mathau o fusnes y Cyfarfod Llawn.

Cynigion a gwelliannau

Egwyddorion cyffredinol

87. Mae cynigion yn ddull o gael penderfyniad gan y Senedd neu o gynnig dull gweithredu penodol. Bydd cynigion, os y'u derbynnir, yn dod yn Benderfyniad y Senedd.

88. Mae'r rhan fwyaf o gynigion yn agored i welliannau oni bai y nodir fel arall yn y Rheolau Sefydlog. Gallai gwelliant fod at ddiben addasu cynnig i'w wneud yn fwy derbyniol i'r Senedd neu i argymell dull gweithredu i'r Senedd sy'n wahanol i'r cynnig gwreiddiol.

89.Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cynigion a gwelliannau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog 12.19-12.28.

Cynigion

90. Mae Rheol Sefydlog 12.19 yn datgan bod yn rhaid i'r busnes yn y Cyfarfod Llawn fynd yn ei flaen ar sail y cynigion a wneir, ac eithrio'r hyn a ganlyn:

- datganiadau;
- cyflwyno Aelodau newydd;
- teyrngedau coffa i gyn-Aelodau ac eraill;
- cwestiynau llafar (gan gynnwys cwestiynau brys a chwestiynau amserol);
- dadleuon brys; a
- thrafodion sy'n ymwneud â'r Ddadl Fer.

91. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o'r eitemau ar Agenda'r Cyfarfod Llawn, ac eithrio cwestiynau a datganiadau, yn destun cynnig fel arfer.

Gwelliannau

92. Mae Rheol Sefydlog 12.22 yn nodi, ac eithrio lle mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall, y gellir cynnig gwelliannau i gynigion. Bydd gwelliannau fel arfer yn cynnig y canlynol:

- bod geiriau penodol yn cael eu dileu o'r cynnig;
- bod geiriau penodol mewn cynnig yn cael eu disodli gan eraill; neu
- fod geiriau newydd yn cael eu mewnosod neu eu hychwanegu at y cynnig.

93. Yn unol â'r arfer sefydledig, rhaid i unrhyw welliannau fod o fewn cwmpas pwnc y cynnig gwreiddiol.

Cyflwyno cynigion a gwelliannau

94. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.20, ac eithrio pan fydd Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall (gweler paragraff 119 ar gynigion heb hysbysiad), caniateir i gynnig gael ei gyflwyno gan unrhyw Aelod a rhaid ei gyflwyno o leiaf bum niwrnod gwaith cyn ei drafod.

95. Yn yr un modd, ac eithrio pan fydd y Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall, rhaid i welliannau gael eu cyflwyno o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y trafodir y cynnig.

96. Mae derbyniadwyedd cynnig neu welliant – sef a yw'n dderbyniol fel eitem o fusnes – yn fater i'r Llywydd.

97. Mae gwybodaeth fanwl am gyflwyno cynigion a gwelliannau - a'u derbyniadwyedd - ar gael yn y **Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd**.

Dangos cefnogaeth ar gyfer cynigion a gwelliannau

98. Gellir cyflwyno cynigion yn enw un neu fwy o Aelodau. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.21 a 12.22(ii), gall unrhyw Aelod ddangos ei fod o blaid cynnig neu welliant, drwy ychwanegu ei enw ato ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Rhaid gwneud hyn cyn diwedd y diwrnod gwaith cyn y mae disgwyl i'r busnes perthnasol gael ei ystyried mewn Cyfarfod Llawn.

Cynigion 'â dyddiad trafod' a chynigion 'heb ddyddiad trafod'

99. Er nad yw'r Rheolau Sefydlog yn gwahaniaethu rhyngddynt, caniateir i gynigion gael eu cyflwyno naill ai fel cynigion 'â dyddiad trafod' neu fel cynigion 'heb ddyddiad trafod'. Mae hwn yn gonfensiwn sydd wedi'i sefydlu i wahaniaethu rhwng busnes y cytunwyd arno (hynny yw, busnes y mae'r Pwyllgor Busnes wedi'i nodi / wedi cytuno arno) a busnes arall sydd wedi'i gynnig (hynny yw, busnes y mae unrhyw un o'r Aelodau'n dymuno ei gyflwyno i'w drafod neu ei ystyried ond nad oes amser wedi'i neilltuo ar ei gyfer eto yn y Cyfarfod Llawn gan y Pwyllgor Busnes).

100. Bydd cynnig wedi'i ddynodi'n gynnig 'â dyddiad trafod' os yw dadl ar y cynnig hwnnw wedi'i hamserlennu yn y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes. Byddai cynnig lle na chytunwyd eto ar ddyddiad i'w drafod yn cael ei ddynodi a'i gyhoeddi fel cynnig 'heb ddyddiad trafod'.

101. Er y caniateir i gynnig 'heb ddyddiad trafod' gael ei gyflwyno ar unrhyw adeg, ni ellir ei drafod mewn Cyfarfod Llawn nes bydd y cyfnod hysbysu arferol ar gyfer y cynnig dan sylw wedi dod i ben.

Dethol gwelliannau a'u didoli

102. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23, caiff gwelliannau eu dethol i'w trafod mewn Cyfarfod Llawn gan y Llywydd.

Gwelliannau nas detholwyd

103. Er y gallai gwelliant fod yn dderbyniadwy pan gaiff ei gyflwyno, gall y Llywydd wrthod ei ddethol os yw o'r farn bod y dull priodol o gynnal busnes yn ei gwneud yn briodol ei wrthod (Rheol Sefydlog 12.23(iii)).

104. Pan wneir penderfyniad o'r fath, caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi yn agenda'r Cyfarfod Llawn a bydd y gwelliant wedi'i farcio fel un "na chafodd ei ddethol". Rhoddir gwybod i'r

Aelod a gyflwynodd y gwelliant am benderfyniad y Llywydd ac ni chaiff y gwelliant ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.

Dad-ddethol gwelliannau

105.Caniateir i welliannau sydd wedi'u dethol gael eu cynnig mewn Cyfarfod Llawn gael eu dad-ddethol wedyn gan y Llywydd. Fel arfer, byddai gwelliant yn cael ei ddad-ddethol os byddai, ar ôl ei dderbyn, yn mynd yn groes i benderfyniad yr oedd y Senedd wedi'i wneud eisoes ar y cynnig neu ar welliannau eraill, neu'n creu cynnig afresymol. Er enghraifft, os derbynnir gwelliant sy'n dileu Pwynt 1 mewn cynnig, bydd unrhyw welliannau a geir wedyn i Bwynt 1 y cynnig yn cael eu dad-ddethol.

106.Pan fydd yn glir y byddai penderfyniad penodol ar welliant yn arwain at ddad-ddethol gwelliant arall, cyhoeddir y wybodaeth hon yn agenda'r Cyfarfod Llawn. Darperir y wybodaeth yn y fformat "os derbynnir gwelliant X, caiff gwelliant Y ei ddad-ddethol".

Didoli gwelliannau

107.Mae Rheol Sefydlog 12.23(ii) yn caniatáu i'r Llywydd benderfynu ym mha drefn y caiff gwelliannau eu trafod yn y Cyfarfod Llawn. Cyfeirir at hyn fel "didoli" gwelliannau.

108.Nodir ym mha drefn y bydd gwelliannau'n cael eu trafod yn Agenda'r Cyfarfod Llawn.

Gwneud cynigion a chynnig gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn

109.Pan ddeuir at yr eitem fusnes berthnasol yn agenda'r Cyfarfod Llawn, bydd y Llywydd yn galw'r Aelod sydd i fod i wneud y cynnig. Yn gyffredinol, gall cynigion gael eu gwneud gan unrhyw Aelod, yn amodol ar yr eithriadau a ganlyn:

- bod yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer trefnu busnes yn gymwys - e.e. dim ond aelodau o'r Llywodraeth a all wneud cynigion yn enw Llywodraeth Cymru, ac aelodau'r grwpiau gwleidyddol perthnasol fydd yn gwneud cynigion sydd wedi'u cyflwyno yn enwau eu grwpiau gwleidyddol.

- mae rhai Rheolau Sefydlog yn mynnu bod Aelodau penodol yn gwneud cynigion penodol - e.e. gall cynigion cyllideb blynyddol gael eu cynnig gan un o Weinidogion Cymru yn unig (Rheol Sefydlog 20.29).

110.Caiff gwelliannau eu cynnig yn y drefn y maent yn ymddangos yn agenda'r Cyfarfod Llawn - hynny yw, y drefn y maent wedi'u didoli iddi (mae rhagor o wybodaeth ym mharagraffau 107 - 108 am ddidoli gwelliannau).

111.Fel arfer, caniateir i Aelodau siarad wrth wneud cynnig neu gynnig gwelliant. Y Llywydd sy'n penderfynu ar sut i ddyrannu'r amser i Aelodau siarad ar wahanol fathau o gynigion a gwelliannau (gweler paragraffau 39-41 am ragor o wybodaeth am amseru dadleuon).

Gwneud cynigion a chynnig gwelliannau'n ffurfiol

112.Os nad yw Aelodau'n dymuno siarad ar destun cynnig neu welliant, caniateir iddynt ei gynnig "yn ffurfiol". Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fyddant yn siarad ar destun y cynnig neu'r gwelliant ar ôl cael eu gwahodd i siarad gan y Llywydd. Yn lle hynny, byddent fel arfer yn dweud "yn ffurfiol".

Cynigion a gwelliannau nas cynigiwyd

113. Caiff Aelodau ddewis peidio â gwneud cynnig neu welliant. Os dewisant wneud hyn, dylai gael ei egluro i'r Siambr cyn iddynt siarad ar destun y cynnig neu'r gwelliant. Lle bo modd, dylai Aelodau roi gwybod i'r Llywydd ymlaen llaw am eu bwriad i beidio â gwneud eu cynnig neu welliant.

Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl

Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl cyn eu cynnig

114. Gall Aelod dynnu ei gynnig neu welliant yn ôl cyn ei gynnig drwy roi hysbysiad i'r Swyddfa Gyflwyno. Gellir tynnu cynnig neu welliant yn ôl ar unrhyw bwynt cyn ei gynnig, er bod cynsail hysbysu'r Swyddfa Gyflwyno ddwy awr ymlaen llaw. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod modd tynnu cynnig neu welliant yn ôl yn ystod Cyfarfod Llawn. Os bydd hyn yn digwydd, caiff Aelodau eu hysbysu gan y Swyddfa Gyflwyno a chaiff ei nodi yn agenda'r Cyfarfod Llawn os yw amser yn caniatáu.

Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl ar ôl eu cynnig

115. Ni ellir tynnu cynnig neu welliant yn ôl ar ôl ei gynnig yn ystod Cyfarfod Llawn, oni bai fod yr holl Aelodau'n cytuno ar hynny, yn unol â Rheol Sefydlog 12.27. Ar ôl ei gynnig, ystyrir bod cynnig neu welliant "ym meddiant" y Senedd ac felly ei bod yn ofynnol cael caniatâd gan y Senedd i'w dynnu'n ôl.

116. Os bydd Aelod yn cynnig tynnu cynnig neu welliant yn ôl wedi iddo ei gynnig, bydd y Llywydd yn gofyn cwestiwn i'r Senedd iddo gael ei dynnu'n ôl. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu ei dynnu'n ôl, rhaid cynnal pleidlais ar y cynnig i'w dynnu'n ôl.

Grwpio cynigion neu welliannau er mwyn eu trafod

117. Mae Rheol Sefydlog 12.24 yn caniatáu i'r Llywydd gynnig bod cynigion yn cael eu grwpio er mwyn eu trafod. Caiff cynigion eu grwpio os ydynt yn ddigon tebyg i'w gilydd. Bydd unrhyw benderfyniad sydd wedi'i wneud gan y Llywydd i gynnig bod cynigion yn cael eu grwpio yn cael ei nodi ar agenda'r Cyfarfod Llawn cyn y cyfarfod. Gellir grwpio gwelliannau o dan yr un trefniadau.

118. Os bydd y Llywydd yn cynnig grwpio cynigion neu welliannau i'w trafod, gofynnir y cwestiwn i'r Senedd iddynt gael eu grwpio. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu eu grwpio, rhaid trafod y cynigion ar wahân.

Cynigion heb hysbysiad

119. Caniateir trafod rhai mathau o gynigion heb roi'r hysbysiad arferol o bum niwrnod, lle mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi hynny. Mae hyn yn cynnwys busnes sydd wedi'i restru o dan y categori o fusnes y ceir ei drafod heb hysbysiad ac sy'n mynd ymlaen ar sail cynnig o dan Reol Sefydlog 12.16: etholiadau, enwebiadau neu benodiadau gan y Senedd; a chynigion gweithdrefnol. Mae'n ofynnol cael cytundeb gan y Llywydd ar gyfer unrhyw fusnes y caniateir ei drafod heb hysbysiad.

Cynigion gweithdrefnol

120.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.29, gellir trafod cynigion gweithdrefnol heb hysbysiad a byddant yn cael blaenoriaeth dros bob busnes arall. Mae cynigion gweithdrefnol yn cynnwys:

- gohirio (gweler Rheol Sefydlog 12.32), ymestyn (gweler Rheol Sefydlog 12.34) neu ohirio (gweler Rheol Sefydlog 12.35) eitem o fusnes;
- dod â dadl i ben (gweler Rheol Sefydlog 12.33);
- cyfeirio mater at bwyllgor; neu
- unrhyw fater arall sy'n briodol ym marn y Llywydd.

121.Canaiateir i'r Llywydd drwy Reol Sefydlog 12.30 ganiatáu i Aelod siarad yn gryno o blaid unrhyw gynnig gweithdrefnol, ac i Aelod arall siarad yn gryno yn ei erbyn, ac wedyn rhaid gwahodd y Senedd i dderbyn y cynnig. Os bydd unrhyw wrthwynebiad, cynhelir pleidlais ar y cynnig yn syth.

Cynigion a gwelliannau deddfwriaethol

122.Bydd y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth yn cael ei hystyried o leiaf unwaith mewn Cyfarfod Llawn wrth iddi fynd drwy'r Senedd. Bydd Biliau'r Senedd, cynigion cydsyniad sy'n ymwneud â Biliau Senedd y DU, ac is-ddeddfwriaeth sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol i gyd yn cael eu hystyried o leiaf unwaith yn y Siambr. Mae rhagor o wybodaeth am ystyried deddfwriaeth gan y Senedd ar ei **gwefan**.

Cynigion o ddiffyg hyder neu ddiswyddo

Gweinidogion Cymru

123.Mae Rheol Sefydlog 8.7 yn darparu ar gyfer cyflwyno cynigion o ddiffyg hyder mewn cysylltiad â Gweinidogion Cymru yn gyffredinol. Os caiff cynnig o'r fath ei basio, yna rhaid i'r Llywodraeth ymddiswyddo. Er bod cynigion o ddiffyg hyder wedi cael eu cyflwyno a'u trafod mewn cysylltiad â Gweinidogion unigol, nid oes gan y rhain effaith gyfreithiol ac ni fyddai'n rhaid i'r Gweinidog dan sylw ymddiswyddo pe bai cynnig o'r fath yn cael ei basio.

124.Rhaid i gynnig yn nodi nad oes gan Weinidogion Cymru hyder y Senedd mwyach gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod. Os cyflwynir cynnig o'r fath, mae Rheol Sefydlog 8.7 yn ei gwneud yn ofynnol trefnu bod amser ar gael cyn gynted ag sy'n bosibl i'r cynnig gael ei drafod. Rhaid i ddadl o'r fath gael ei chynnal o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cynnig.

125.Os derbynnir unrhyw gynnig o'r fath mewn Cyfarfod Llawn, rhaid i holl Weinidogion Cymru ymddiswyddo yn unol ag adran 48(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Llywyddion

126.Mae Rheol Sefydlog 6.26 yn caniatáu i gynnig gael ei gyflwyno y dylid diswyddo Llywydd neu Ddirprwy Lywydd.

127.Rhaid i gynnig i ddiswyddo'r Llywydd neu Ddirprwy Lywydd gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod. Os cyflwynir cynnig o'r fath, mae Rheol Sefydlog 6.26 yn ei gwneud yn ofynnol

trefnu bod amser ar gael cyn gynted ag sy'n bosibl i'r cynnig gael ei drafod. Rhaid i ddadl o'r fath gael ei chynnal o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cynnig.

128.Yn unol â Rheol Sefydlog 6.27, os derbynnir unrhyw gynnig o'r fath mewn Cyfarfod Llawn, bydd swydd y Llywydd neu'r Dirprwy, yn ôl fel y digwydd, yn dod yn wag ar unwaith.

Comisiynwyr y Senedd

129.Mae Rheol Sefydlog 7.8 yn darparu y caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig y dylai Aelod penodol (ac eithrio'r Llywydd sy'n dal ei swydd fel cadeirydd y Comisiwn yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd) gael ei ddiswyddo o Gomisiwn y Senedd.

130.Mater i'w benderfynu gan y Pwyllgor Busnes fydd neilltuo amser mewn Cyfarfod Llawn i drafod cynnig o'r math hwn.

131.Os derbynnir unrhyw gynnig o'r fath mewn Cyfarfod Llawn, caiff yr Aelod hwnnw ei ddiswyddo o'r Comisiwn ar unwaith.

Penodiadau eraill y Senedd

132.Yn unol â Rheol Sefydlog 10.7, pan gaiff y Senedd, o dan unrhyw ddeddfiad, ddiswyddo deiliad swydd berthnasol, rhaid i'r diswyddiad hwnnw (yn amodol ar unrhyw amodau a osodir gan y deddfiad hwnnw) gael ei wneud drwy benderfyniad gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn.

133.O dan Reol Sefydlog 10.8, rhaid i gynnig y dylid diswyddo unrhyw ddeiliad swydd o'r fath gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod. Os cyflwynir cynnig o'r fath, mae Rheol Sefydlog 10.8 yn ei gwneud yn ofynnol trefnu bod amser ar gael cyn gynted ag sy'n bosibl i'r cynnig gael ei drafod. Rhaid i ddadl o'r fath gael ei chynnal o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cynnig.

Cynigion i atal Rheolau Sefydlog dros dro

134.O dan Reol Sefydlog 33.6, gellir atal unrhyw Reol Sefydlog (neu unrhyw ran ohoni) dros dro at ddiben penodol ac mewn perthynas â diwrnod penodol. Caiff Rheolau Sefydlog eu hatal dros dro weithiau er mwyn cyflwyno eitem o fusnes i gael ei hystyried gan y Senedd ar fyr rybudd.

135.Gall unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i atal Rheol Sefydlog (neu unrhyw ran ohono) dros dro, fodd bynnag, rhaid ei gyflwyno nid llai nag un diwrnod gwaith cyn y disgwylir iddo gael ei ystyried gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn, yn unol â Rheol Sefydlog 33.8.

136.Caiff y Llywydd ganiatáu i gynnig o'r fath gael ei wneud heb hysbysiad os yw'n fodlon na fyddai gwneud hynny'n gamddefnydd o weithdrefnau'r Senedd nac yn amharu ar hawliau lleiafrifoedd yn y Senedd.

137.Ni fydd cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro yn ddilys oni bai fod o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn cefnogi'r cynnig.

Penderfyniadau ar gynigion a gwelliannau – pleidleisio

138.Diben pob cynnig neu welliant yw cael penderfyniad gan y Senedd. Gwneir hyn drwy bleidleisio. Mae Rheol Sefydlog 12.41 yn datgan bod rhaid i'r Aelodau fwrw eu pleidlais yn unigol ac yn bersonol ond nid yw'n ofynnol iddynt bleidleisio.

Pleidleisio a'r cyfnod pleidleisio

139.Ceir gwneud penderfyniadau (neu gynnal pleidleisiau) ar gynigion a gwelliannau'n syth ar ôl eu trafod neu eu gohirio tan amser penodedig neu bwynt penodol yn agenda'r Cyfarfod Llawn (a elwir fel arfer yn "Gyfnod Pleidleisio"). Mae'r Pwyllgor Busnes yn cytuno yn ei gyfarfod wythnosol ar Gyfnod Pleidleisio ar gyfer pob Cyfarfod Llawn.

140.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.36, ar ddiwedd trafodion ar eitem o fusnes, rhaid i'r Llywydd wahodd y Senedd i gytuno ar unrhyw gwestiwn y mae angen cytuno arno er mwyn cwblhau'r busnes. Os na fydd Aelod yn gwrthwynebu, bernir bod y Senedd wedi cytuno ar y busnes (gelwir hyn yn bleidleisio "drwy amneidio"). Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, caiff y busnes ei ohirio tan y Cyfnod Pleidleisio, pan gynhelir pleidlais wedi'i chofnodi'n electronig.

141.Mae dau eithriad i'r rheol hon:

a) mae'r Pwyllgor Busnes yn penderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog 11.15 (iii), na ddylai Rheol Sefydlog 12.36 fod yn gymwys i'r eitem o fusnes. Os penderfynir ar hyn, bydd y Pwyllgor Busnes yn neilltuo amser neu bwynt yn ystod busnes Cyfarfod Llawn y dydd pan fydd y bleidlais berthnasol yn cael ei chymryd. Caiff hyn ei nodi yn Agenda'r Cyfarfod Llawn cyn y cyfarfod; a

b) yn achos cynnig i basio neu gymeradwyo Bil y Senedd, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal pleidlais wedi'i chofnodi. Ychwanegwyd y ddarpariaeth hon i'r Rheolau Sefydlog ym mis Hydref 2017 o ganlyniad i ofyniad yn Neddf Cymru 2017 ar gyfer pleidlais uwch-fwyafrif i basio neu gymeradwyo unrhyw Fil y Senedd sy'n cynnwys pwnc gwarchodedig. Mae datgymhwyso Rheol Sefydlog 12.36 yn sicrhau y bydd cofnod bob amser ynghylch a wnaeth unrhyw bleidlais i basio neu gymeradwyo Bil y Senedd fodloni'r trothwy o 2/3 o'r holl Aelodau a bleidleisiodd o blaid ai peidio.

Y Gloch

142.Cyn cynnal pleidlais, os bydd o leiaf dri Aelod yn gofyn am hynny, rhaid canu'r gloch i dynnu sylw Aelodau at y ffaith bod pleidlais ar fin cael ei chynnal. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.44, bum munud wedi i'r gloch ddechrau canu, rhaid cynnal y bleidlais neu'r pleidleisiau.

Pleidleisio electronig

143.Os bydd angen pleidlais, mae pleidleisiau o'r fath yn cael eu cymryd fel arfer yn electronig, ac felly yn cael eu cofnodi'n unigol.

144.Ar waelod y cyfrifiadur, mae twll ar gyfer cerdyn sy'n dangos pwy yw pob Aelod. Mae tri botwm yno hefyd:

- **Gwyrdd**: i bleidleisio o blaid
- **Gwyn** : i ymatal
- **Coch**: i bleidleisio yn erbyn

145.Bydd y Llywydd yn gofyn i'r Aelodau bleidleisio. Bydd Aelodau'n pleidleisio drwy bwyso'r botwm o'u dewis. Dangosir y canlyniadau ar sgriniau arddangos yn y Siambr ar ddiwedd

pob pleidlais. Unwaith y bydd y bleidlais yn cael ei chau, nid yw'n bosibl newid y bleidlais a fwriwyd. Os bydd Aelodau'n dod ar draws unrhyw broblemau gyda'r system bleidleisio yn ystod y bleidlais electronig, dylai hyn gael ei ddwyn yn syth i sylw'r Llywydd, cyn i'r bleidlais gau.

146.Cyhoeddir canlyniadau pob pleidlais ar ôl y cyfarfod ar y dudalen Pleidleisiau a Thrafodion a Chofnod y Trafodion. Hefyd, cyhoeddir Crynodeb o Bleidleisiau sy'n cynnwys yr holl fanylion am y modd y pleidleisiodd pob un o'r Aelodau ar bob eitem o fusnes.

Pleidleisio drwy godi dwylo

147.Os bydd y system bleidleisio electronig yn methu am unrhyw reswm, caiff y Llywydd benderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 12.43, i gynnal y bleidlais drwy godi dwylo. Mae hyn ar yr amod na fydd mwy na dau Aelod yn gwrthwynebu. Os cynhelir pleidlais drwy godi dwylo, gofynnir i'r holl Aelodau sydd o blaid y cynnig neu'r gwelliant godi eu llaw dde a'i dal i fyny nes rhoddir hysbysiad. Bydd y Clerc yn cyfrif y rheini sy'n pleidleisio o blaid. Wedyn gofynnir i'r holl Aelodau sydd yn erbyn y cynnig godi eu dwylo yn yr un modd, ac yna pob un o'r rheini sy'n dymuno ymatal.

Pleidleisio drwy alw'r gofrestr

148.Fel arall, caiff y Llywydd ddewis cynnal y bleidlais drwy alw'r gofrestr o'r holl Aelodau sy'n bresennol, yn nhrefn yr wyddor. Gelwir enw pob un o'r Aelodau a gofyn iddynt yn eu tro a ydynt o blaid neu yn erbyn y cynnig neu'r gwelliant, neu'n dymuno ymatal. Bydd y Clerc yn cofnodi canlyniad y bleidlais neu'r pleidleisiau.

149.Os bydd mwy na dau Aelod yn gwrthwynebu pleidleisio drwy godi dwylo, yna byddai'n rhaid cynnal y bleidlais drwy alw'r gofrestr.

Defnyddio'r bleidlais fwrw

150.Yn unol â Rheol Sefydlog 6.20, os bydd nifer y pleidleisiau ar gynnig neu welliant yn gyfartal, rhaid i'r Llywydd ddefnyddio ei bleidlais fwrw.

151.Pan fydd nifer y pleidleisiau yn gyfartal, rhaid i'r bleidlais fwrw gael ei rhoi gan y Llywydd:

- yn gadarnhaol lle mae'n bosibl cael trafodaeth bellach ar y mater sydd gerbron y Senedd; ac
- yn negyddol os nad yw rhagor o drafodaeth yn bosibl neu os ceir pleidlais ar welliant.

Dilysrwydd pleidlais

152.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.46, ni fydd pleidlais yn ddilys oni fydd o leiaf 10 Aelod yn cymryd rhan. Os bydd llai na 10 o Aelodau'n bresennol i gymryd rhan, rhaid cadw'r busnes hwnnw a bydd y Llywydd yn trefnu i gynnal y bleidlais ar adeg arall.

Cyfyngiadau ar bleidleisio

153.Yn unol â Rheolau Sefydlog 6.20 a 6.21, dim ond o dan yr amgylchiadau a ganlyn y caniateir i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd bleidleisio mewn Cyfarfod Llawn:

- mae angen pleidlais fwrw (gweler paragraffau 150-151 i gael gwybodaeth am y defnydd o'r bleidlais fwrw); a

- lle bo deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i basio penderfyniad neu gynnig drwy bleidlais lle bydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad neu'r cynnig yn cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd (sef 40 allan o 60 o Aelodau).

154. Yn unol â Rheol Sefydlog 2.9, os bydd yn ofynnol i Aelod ddatgan buddiant ariannol ffurfiol mewn mater cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd (yn unol â Rheol Sefydlog 2.6), rhaid i'r Aelod hwnnw beidio â phleidleisio ar unrhyw eitem o fusnes sy'n ymwneud â'r mater hwnnw.

Dadleuon

155. Dadleuon yw un o'r eitemau busnes sy'n ymddangos amlaf ar agendâu'r Cyfarfod Llawn ac maent yn digwydd ar sail cynigion a gwelliannau (gweler paragraffau 87-93 ar gynigion a gwelliannau).

Mathau o ddadleuon

156. Mae nifer o fathau o ddadleuon yn cael eu cyflwyno mewn Cyfarfod Llawn, gan gynnwys:

- dadleuon y Llywodraeth;
- dadleuon gwrthbleidiau ar bwnc o'u dewis;
- dadleuon pwyllgorau sy'n ymwneud ag adroddiad sydd wedi'i gyhoeddi gan y pwyllgor;
- dadleuon sydd wedi'u cynnig gan Aelodau unigol nad ydynt yn aelodau o'r Llywodraeth; a
- dadleuon deddfwriaethol.

Amseriad a threfn dadleuon

157. Ac eithrio dadleuon y Llywodraeth, bydd yr amser a gaiff ei neilltuo ar gyfer pob math arall o ddadleuon a'u hamlder yn cael eu pennu gan y Pwyllgor Busnes.

158. Ac eithrio dadleuon y Llywodraeth, ni fydd testun y dadleuon wedi'i gynnwys yn y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes, ond fe'i cyhoeddir wythnos ymlaen llaw pan gyflwynir y cynnig perthnasol.

159. Fel arfer, bydd dadl yn dechrau pan fydd Aelod yn gwneud y cynnig ac yn cyflwyno'r pwnc. Bydd y mater o bwy fydd yn gwneud y cynnig yn dibynnu ar y math o ddadl. Er enghraifft, bydd un o Weinidogion Cymru yn cyflwyno dadleuon y Llywodraeth a Chadeirydd pwyllgor yn cyflwyno dadl am adroddiad pwyllgor.

160. Os bydd Aelod wedi cyflwyno gwelliant i'r cynnig, caiff ei wahodd i egluro pam mae'n gofyn i'r Senedd ddiwygio'r cynnig gwreiddiol. Yna bydd y Llywydd yn galw ar Aelodau eraill sydd wedi gwneud cais i siarad ar y pwnc.

161. Fel arfer, caiff y rhan fwyaf o gynigion a gwelliannau eu cyflwyno ymlaen llaw gan Reolwyr Busnes pob grŵp gwleidyddol, ond cânt eu cynnig yn y Siambr gan yr aelod o'r grŵp sydd â chyfrifoldeb dros y portffolio polisi y mae'r cynnig neu'r gwelliant yn berthnasol iddo.

162. Mewn dadleuon ac eithrio dadleuon y Llywodraeth, caiff y Gweinidog gymryd rhan ac fel arfer bydd yn ymateb fel y siaradwr olaf ond un i'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau. Yn olaf, bydd yr Aelod a gyflwynodd y ddadl yn rhoi ei sylwadau cloi i'r Senedd.

163.Ar ddiwedd y ddadl, bydd y Llywydd yn gofyn i'r Senedd dderbyn y cynnig. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, rhaid cynnal pleidlais ar y cynnig. Gellir gofyn i Aelodau bleidleisio'n syth, neu gofynnir iddynt wneud hynny yn ystod y 'cyfnod pleidleisio' sydd wedi'i ddynodi (mae mwy o wybodaeth ym mharagraffau 138 - 141 am benderfyniadau ar gynigion a gwelliannau).

Dadleuon Aelodau

164.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.20, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynigion ar gyfer dadl. Mae dadleuon Aelodau yn digwydd ar sail cynigion fel pob math arall o ddadl.

165.Mae dau brif ddull yn y Rheolau Sefydlog y gellir eu defnyddio i roi dadleuon gerbron. Caiff unrhyw Aelod nad yw'n aelod o'r Llywodraeth gyflwyno cynnig 'heb ddyddiad trafod' ac annog Aelodau eraill i ychwanegu eu henwau i gefnogi'r cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.21. Mater i'r Pwyllgor Busnes wedyn yw penderfynu a fydd yn neilltuo amser i drafod y cynnig. Fel arall, yn unol â Rheol Sefydlog 12.28, caiff y Llywydd gynnal balot i bennu enw'r Aelod neu'r Aelodau y caiff amser ei neilltuo iddo neu iddynt er mwyn trafod cynnig a gyflwynwyd yn ei enw ef neu eu henwau hwy.

166.Ers y Pedwerydd Senedd, i annog cynigion gan Aelodau mae'r Pwyllgor Busnes fel arfer wedi trefnu Dadl Aelodau bob hanner tymor ac yn gwahodd yr holl Aelodau i gyflwyno cynnig ar gyfer dadl. Er mwyn bod yn gymwys i'w ystyried, mae'n rhaid i gynnig gael ei gyflwyno neu ei gefnogi gan o leiaf dri Aelod yn cynrychioli dau grŵp gwahanol. Yna, mae'r Pwyllgor Busnes yn dethol un cynnig ar gyfer cynnal dadl arno o blith y rhai cymwys a gyflwynwyd.

Dadleuon byr

167.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.72, mae Dadleuon Byr yn wahanol i ddadleuon eraill gan eu bod yn digwydd ar sail pwnc yn hytrach na chynnig sydd wedi'i gyflwyno. Oherwydd hynny, nid oes angen penderfyniad arnynt gan y Senedd ar ffurf pleidlais.

168.Bydd Aelod, ac eithrio aelod o'r Llywodraeth, yn cael ei ddethol drwy falot a gynhelir gan y Llywydd ac wedyn caiff yr Aelod hwnnw gyflwyno pwnc o ddiddordeb neu fater etholaethol ar gyfer dadl gyffredinol. Rhaid i'r Swyddfa Gyflwyno gael gwybod am y pwnc a ddewiswyd heb fod yn hwyrach na phum niwrnod gwaith cyn iddo gael ei drafod. Ceir rhagor o wybodaeth am ddadleuon byr yn y **Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd**.

Trefn y ddadl fer

169.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.74, bydd yr Aelod a lwyddodd yn y balot yn agor y ddadl ac yn siarad am yr amser sydd wedi'i neilltuo iddo.

170.Caiff yr Aelod ganiatáu i gyd-Aelodau gyfrannu o fewn yr amser sydd wedi'i neilltuo iddo am un funud yr un ar y mwyaf. Os yw'r Aelod yn bwriadu caniatáu i Aelodau eraill gyfrannu, dylai gyhoeddi hyn ar ddechrau'r ddadl ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod digon o amser yn weddill o fewn y cyfanswm o 15 munud ar gyfer yr Aelod/Aelodau sy'n cyfrannu. Ni all unrhyw Aelod arall siarad neu ymyrryd yn ystod 15 munud cyntaf y ddadl oni bai fod ganddynt ganiatâd yr Aelod a lwyddodd yn y balot.

171.Mae Rheol Sefydlog 12.74(ii) yn datgan y caiff Gweinidog (neu Gomisiynydd, os bydd y mater o fewn cyfrifoldebau'r Comisiwn) ymateb. Nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru (neu Gomisiwn y Senedd) ymateb. Fodd bynnag, mae'n arfer cyffredin iddynt wneud hynny.

172.Neilltuir cyfanswm o 15 munud i'r Gweinidog (neu'r Comisiynydd) sy'n ymateb. Yn unol â'r arfer sefydledig, gall unrhyw Aelod geisio ymyriad yn ystod yr ymateb (i gael rhagor o wybodaeth am ymyriadau, gweler paragraff 55).

Dadleuon Deddfwriaethol

173.Caiff y Senedd wneud cyfreithiau, a elwir yn Ddeddfau gan Senedd Cymru. Yr enw ar Ddeddfau arfaethedig yw Biliau; a daw Bil yn Ddeddf pan gaiff ei basio gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn ac ar ôl iddo gael y Cydsyniad Brenhinol.

174.Mae fel arfer pedwar cyfnod i'r broses o drafod Bil:

- Cyfnod 1 - bydd pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, sy'n arwain at lunio adroddiad sy'n sail i ddadl gan y Senedd ar yr egwyddorion cyffredinol yn ystod y Cyfarfod Llawn. Bydd y pwyllgor fel arfer yn gofyn i randdeiliaid beth ddylai'r Bil ei wneud yn eu barn hwy, yn cynnal cyfarfodydd i drafod y Bil gydag arbenigwyr ac aelodau o'r cyhoedd ac yn llunio adroddiad ar y canfyddiadau. Yna, bydd pob un o'r 60 Aelod yn trafod egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn ac yn pleidleisio i ddangos a ydynt yn cytuno arnynt (os nad ydynt yn cytuno arnynt, yna ni fydd y Bil yn parhau);
- Cyfnod 2 – bydd pwyllgor yn ystyried y Bil ac unrhyw welliannau a gyflwynwyd i'r Bil hwnnw yn fanwl;
- Cyfnod 3 – y Senedd, yn y Cyfarfod Llawn yn ystyried y Bil, ac unrhyw welliannau a gyflwynwyd i'r Bil hwnnw, yn fanwl;
- Cyfnod 4 - y Senedd yn pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn i basio testun terfynol y Bil.

175.Mae Rheol Sefydlog 26 hefyd yn darparu ar gyfer cyfnod diwygio ychwanegol, sef Cyfnod adrodd, y gellir ei gynnwys rhwng cyfnodau 3 a 4, os bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cynnig hynny a bod y Senedd yn ei gymeradwyo.

176.Y Pwyllgor Busnes fydd yn cytuno ar yr amserlen ar gyfer y cyfnodau pwyllgor i ystyried y Bil.

Strwythur dadl Cyfnod 1

177.Bydd y Gweinidog neu'r Aelod sy'n gyfrifol yn agor y ddadl ac yn siarad am yr amser a neilltuwyd.

178.Bydd Cadeirydd y pwyllgor sy'n gyfrifol bob amser yn siarad yn ystod dadl Cyfnod 1 y Bil. Fel arfer, bydd yr araith yn crynhoi adroddiad terfynol y pwyllgor ar y Bil ac yn tynnu sylw at y prif ganfyddiadau ac argymhellion.

179.Caiff Cadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wneud cais i siarad hefyd os ydynt wedi cyflwyno adroddiad ar y Bil.

180.Caniateir cyflwyno gwelliannau i gynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil. Fodd bynnag, mae'r Llywydd wedi nodi y caiff gwelliannau ond eu dethol ar gyfer eu trafod os

ydynt wedi'u geirio mewn ffordd, pe bai'r cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn, na fyddai'n peri amheuaeth o ran a oedd y Senedd wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Caniateir amser siarad ar gyfer y rhai sy'n cynnig gwelliannau, ynghyd â chyfraniadau gan unrhyw Aelod arall ar y meinciau cefn.

181. Y Gweinidog neu'r Aelod sy'n Gyfrifol fydd yn cau'r ddadl ac yn siarad am weddill yr amser a neilltuwyd.

Strwythur dadl Cyfnod 3 / Cyfnod adrodd

182. Mae trafodion Cyfnod 3 yn cynnwys cynnig a gwaredu'r gwelliannau hynny a ddetholwyd ar gyfer eu trafod. Mae'r ddadl yn dilyn trefn y rhestr o welliannau wedi'u grwpio, ond cynhelir pleidlais ar y gwelliannau yn y drefn y maent yn ymddangos yn y rhestr o welliannau wedi'u didoli.

183. Dyma drefn y ddadl ar bob grŵp o welliannau:

- Bydd y Llywydd yn galw ar yr Aelod sy'n cynnig y prif welliant (y cyntaf yn y grŵp) i gynnig y gwelliant ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp;
- Bydd y Llywydd yn gwahodd yr Aelodau sy'n cynnig gwelliannau eraill yn y grŵp i siarad am eu gwelliant a'r gweddill yn y grŵp - Noder, ni chaiff y gwelliannau hyn eu cynnig yn ystod y Cyfnod hwn, ond byddant yn cael eu galw pan ddaw'r adeg i bleidleisio arnynt;
- Bydd y Llywydd yn gwahodd Aelodau eraill i siarad am y gwelliannau yn y grŵp;
- Bydd y Llywydd yn gwahodd y Gweinidog neu'r Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth i wneud sylwadau;
- Bydd y Llywydd yn gwahodd yr Aelod sy'n cynnig y prif welliant i ymateb i'r ddadl.

184. Yna bydd y Llywydd yn 'gofyn y cwestiwn' a ddylid derbyn y prif welliant. Os na fydd gwrthwynebiad, derbynnir y gwelliant. Os bydd unrhhyw Aelod yn gwrthwynebu, bydd y Llywydd yn galw pleidiais electronig ar unwaith.

185. Ar ôl trafod grŵp o welliannau ac ar ôl i'r prif welliant gael ei dderbyn neu ei wrthod, bydd y Llywydd yn symud ymlaen at y gwelliant nesaf yn y rhestr o welliannau wedi'u didoli. Gallai hwn fod yn brif welliant yn y grŵp nesaf o welliannau, neu'n welliant a drafodwyd eisoes mewn grŵp blaenorol.

Cyfnod 4 – Y Cyfnod terfynol

186. Mae Rheol Sefydlog 16.47 yn caniatáu i unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i basio Bil, ond mae'n rhwystro rhag ystyried y cynnig hyd nes bydd o leiaf pum niwrnod gwaith wedi mynd heibio ar ôl cwblhau Cyfnod 3. Y bwriad yw mai dyma'r drefn arferol i'r Senedd gytuno i basio Bil, er y gall hefyd wneud cynnig heb hysbysiad o dan Reol Sefydlog 26.48.

Cydsyniad Brenhinol

187. Bydd y gwaith o baratoi ar gyfer Cydsyniad Brenhinol yn dechrau ar ôl cwblhau Cyfnod 4 yn y Senedd pan fydd y Senedd yn cymeradwyo'r Bil yn ei ffurf derfynol.

188.Bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol pan fydd 'Breintlythyrau o dan y Sêl Gymreig wedi'u llofnodi gan Ei Mawrhydi ei hun yn datgan ei Chydsyniad' yn cael eu cyflwyno i'r Clerc.

189.Ar ôl i Fil gael Cydsyniad Brenhinol, bydd y Llywydd yn gwneud cyhoeddiad i gadarnhau hynny yn ystod y Cyfarfod Llawn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

Cwestiynau llafar

Cefndir

190.Caiff Aelodau o'r Senedd gyflwyno cwestiynau i'w hateb ar lafar yn y Cyfarfod Llawn i'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Senedd am unrhyw fater sydd o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Caiff cwestiynau llafar eu hateb yn ystod sesiwn gwestiynau sydd wedi'i dynodi yn y Cyfarfod Llawn.

191.Cyhoeddir cwestiynau ac atebion yng Nghofnod y Trafodion swyddogol y Senedd. Cwestiynau llafar yw un o'r ffyrdd mwyaf pwysig i Aelodau ddwyn Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd i gyfrif.

Amserlen ar gyfer cwestiynau llafar

192.Yn unol â'r Rheolau Sefydlog bydd y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau bob wythnos, a bydd Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau unwaith bob pedair wythnos. Gofynnir cwestiynau i Gomisiwn y Senedd hefyd unwaith bob pedair wythnos, yn unol ag amserlen y Senedd. Mae'r amserlen ar gyfer cwestiynau llafar wedi'i chyhoeddi ar wefan y Senedd.

193.Os nad yw'r Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol yn gallu ateb cwestiynau llafar ar ddiwrnod pan fyddai'n gwneud hynny fel arfer, mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i un arall o Weinidogion Cymru ateb y cwestiynau hynny.

Cyflwyno cwestiynau llafar

194.Bydd y Llywydd yn cynnal balot i ddethol enwau Aelodau a gaiff gyflwyno cwestiynau ar gyfer sesiwn gwestiynau benodol. Caiff pob Aelod roi ei enw ymlaen unwaith ar gyfer cwestiynau'r Prif Weinidog a Gweinidogion eraill. Ni chaiff Arweinwyr Grŵp gyflwyno eu henw i'r balot i ofyn cwestiwn i'r Prif Weinidog

195.Yna rhaid i'r Aelod sydd wedi'i ddethol gyflwyno ei gwestiwn llafar o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y disgwylir i'r cwestiwn gael ei ateb ar gyfer Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Senedd. Mae'r terfyn amser yn fyrrach ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog, sef tri diwrnod gwaith. Rhaid i gwestiynau fod yn berthnasol i gyfrifoldebau'r Gweinidog dan sylw. Caiff y drefn ar gyfer gofyn y cwestiynau mewn Cyfarfod Llawn ei dewis ar hap ac fe'u cyhoeddir ar wefan y Senedd. Ceir rhagor o wybodaeth am gyflwyno cwestiynau yn y **Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd**.

196.Nid oes balot ar gyfer cwestiynau i Gomisiwn y Senedd a'r Cwnsler Cyffredinol (yn ei gapasiti fel 'swyddog y gyfraith'); caiff unrhyw Aelod sydd am gyflwyno cwestiwn wneud hynny.

Trafodion sesiynau cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn

197.Yn ystod sesiwn gwestiynau, caiff yr Aelod perthnasol ei alw i ofyn y cwestiwn y mae wedi'i gyflwyno yn y drefn sydd wedi'i rhestru yn agenda'r Cyfarfod Llawn. Bydd yr Aelod yn darllen testun ei gwestiwn a rhoddir ateb llafar iddo gan y Gweinidog neu'r Comisiynydd.

Amser ar gyfer cwestiynau

198.Caiff yr amser dangosol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cwestiynau llafar ei nodi yn y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 12.56 yn nodi'r uchafswm amseroedd canlynol:

- y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau llafar am hyd at 60 munud (ers 19 Chwefror 2013, mae'r llywodraeth wedi neilltuo 45 munud i Gwestiynau i'r Prif Weinidog);
- Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau llafar am hyd at 45 munud;
- Comisiwn y Senedd yn ateb cwestiynau llafar am hyd at 30 munud.

199.Yn ôl confensiwn, neilltuir pedwar munud ar gyfer pob cwestiwn llafar unigol. Amser dangosol yw hwn ac, yn ôl nifer yr Aelodau sy'n gwneud cais i ofyn cwestiynau atodol, gellir rhoi caniatâd iddynt gymryd mwy na phedwar munud yn ôl disgresiwn y Llywydd.

Cwestiynau atodol

200.Wedi i'r Gweinidog (neu'r Comisiynydd) roi ei ateb, rhaid i'r Llywydd alw'r Aelod i ofyn un cwestiwn arall sy'n ymwneud â'r cwestiwn y mae wedi'i gyflwyno.

201.Gellir galw Aelodau eraill hefyd i ofyn cwestiwn atodol cysylltiedig yn ôl disgresiwn y Llywydd, h.y. cwestiwn ar yr un testun â'r cwestiwn gwreiddiol. Bydd y Gweinidog yn ateb pob cwestiwn atodol yn ei dro.

202.Yn gyffredinol, caniateir i Aelod ofyn un cwestiwn atodol. Ers y Pedwerydd Senedd, rhoddwyd trefniadau ar wahân ar waith ar gyfer cwestiynau arweinwyr a chwestiynau llefarwyr - gweler isod.

Cwestiynau'r arweinwyr

203.Neilltuir amser penodol i gwestiynau arweinwyr y pleidiau ar ôl i'r ail gwestiwn a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog gael ei ateb bob wythnos. Caniateir i arweinydd pob un o'r gwrthbleidiau ofyn un cwestiwn i'r Prif Weinidog, wedi'i ddilyn gan ddau gwestiwn atodol. Bydd y drefn y caiff yr arweinwyr eu galw bob wythnos yn amrywio. Ni chaniateir i unrhyw Aelod arall ofyn cwestiynau atodol yn ystod hyn.

Cwestiynau'r llefarwyr

204.O fis Medi 2014, yn ystod y cwestiynau i Weinidogion, caiff llefarwyr pleidiau gyfle i ofyn "cwestiynau'r llefarwyr" ar ôl yr ail gwestiwn a gyflwynwyd, unwaith eto yn unol â rota. Gall pob llefarydd plaid ofyn un cwestiwn i un o'r Gweinidogion (neu un o'r Dirprwy Weinidogion) ynghyd â dau gwestiwn atodol ychwanegol. Nid oes hawl gan unrhyw Aelod arall ofyn cwestiynau atodol yn ystod cwestiynau'r llefarwyr.

Cwestiynau amserol

205. Ers mis Mai 2017, dyrannwyd amser i Aelodau ofyn Cwestiynau Amserol heb rybudd i Weinidogion Cymru, fel yr eitem gyntaf o fusnes ar ôl Cwestiynau Llafar bob dydd Mercher (Rheolau Sefydlog 12.68A – 12.68B). Cyflwynwyd y weithdrefn hon ochr yn ochr â newidiadau i'r meini prawf ar gyfer cyflwyno cwestiynau llafar brys (gweler paragraffau 233-239 isod am ragor o gwestiynau brys). Rhaid i Gwestiynau Amserol fod yn gysylltiedig â mater o bwysigrwydd cenedlaethol, rhanbarthol neu leol lle mae ymateb brys gan Weinidog yn ddymunol. Rhaid hefyd i'r cwestiwn fod wedi codi ers y terfyn amser ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Amserol yr wythnos flaenorol: rhaid i Gwestiynau Amserol gael eu cyflwyno gyda'r Swyddfa Gyflwyno rhwng 9am ddydd Llun a 10am ddydd Mercher. Mae rhagor o ganllawiau ar Gwestiynau Amserol ar gael yn y **Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd**.

Cwestiynau wedi'u grwpio

206. Os bydd dau neu ragor o gwestiynau a gyflwynwyd yn debyg, gall y Llywydd roi caniatâd i grwpio'r cwestiynau hynny i'w hateb. Mater i'r Gweinidog neu'r Comisiynydd sy'n ateb y cwestiwn yw gwneud y cais hwn i'r Llywydd. Yn unol ag arfer a defod, mae cais grwpio yn cael ei wneud cyn y Cyfarfod Llawn.

207. Os bydd y Llywydd yn caniatáu i'r cwestiynau gael eu grwpio, bydd swyddogion Ysgrifenyddiaeth y Siambr yn rhoi gwybod i'r Aelodau a gyflwynodd y cwestiynau perthnasol, eu staff cymorth a rheolwr y grŵp cyn y Cyfarfod Llawn.

208. Bydd y Llywydd yn galw'r Aelod i ofyn y cyntaf o'r cwestiynau sydd wedi'u grwpio. Hwn yw'r cwestiwn sy'n ymddangos gyntaf ar Agenda'r Cyfarfod Llawn. Fel arfer, bydd y Gweinidog neu Gomisiynydd yn ateb gan nodi bod y Llywydd wedi rhoi ei ganiatâd i grwpio'r cwestiwn ac yn mynd ymlaen i ymateb. Wedyn, bydd yr Aelod a gyflwynodd y cyntaf o'r cwestiynau sydd wedi'u grwpio yn cael ei wahodd i ofyn ei gwestiwn atodol. Ni fydd cwestiynau eraill a gyflwynwyd sydd wedi'u grwpio yn cael eu darllen yn uchel ond gelwir yr Aelodau a'u cyflwynodd i ofyn eu cwestiynau atodol wedyn.

209. Os bydd dau neu ragor o gwestiynau wedi'u grwpio, bydd yr amser a neilltuwyd ar gyfer pob cwestiwn yn cael ei gyfuno.

Cwestiynau caeëdig

210. Cwestiynau caeëdig yw cwestiynau sy'n ymwneud ag ardal neu ranbarth penodol yng Nghymru. Fel arfer dim ond Aelodau eraill sy'n cynrychioli'r etholaeth neu'r rhanbarth a grybwyllwyd yn y cwestiwn y bydd y Llywydd yn eu galw i ofyn cwestiynau atodol.

211. Yn ôl confensiwn, gellir galw arweinwyr neu lefarwyr y grwpiau i ofyn cwestiynau atodol ar gwestiynau caeëdig, hyd yn oed os nad ydynt yn cynrychioli'r rhanbarth neu'r etholaeth dan sylw. Fodd bynnag, disgwylir iddynt sicrhau bod eu cwestiynau atodol yn ymwneud yn uniongyrchol o ran daearyddiaeth â'r cwestiwn a gyflwynwyd.

Atebion i gwestiynau

212. Mae'r ateb a roddir gan Weinidog neu Gomisiynydd i unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd neu gwestiwn atodol yn fater iddo ef. Fel arfer, ni fydd y Llywydd yn dyfarnu ynghylch ei gynnwys.

213.Er na ellir cyflwyno cwestiynau i'w hateb gan Ddirprwy Weinidogion Cymru, caniateir iddynt ateb cwestiynau ar ran un o'r Gweinidogion ar unrhyw fater y maent yn rhoi cymorth yn ei gylch, a hynny yn unol â Rheol Sefydlog 12.57. Yn unol â dyfarniadau blaenorol, mater i Lywodraeth Cymru, ac nid y Llywydd yw dyrannu cyfrifoldebau o ran ateb cwestiynau i un o'r Dirprwy Weinidogion.

Tynnu cwestiynau'n ôl neu eu trosi i'w hateb yn ysgrifenedig

214.Mae Aelod a gyflwynodd gwestiwn i'w ateb ar lafar yn wreiddiol yn gallu ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn y mae disgwyl iddo gael ei ateb ynddo, drwy gysylltu â'r Swyddfa Gyflwyno. Mae gwybodaeth fanwl am dynnu'n ôl neu addasu cwestiynau llafar ar gael yn y **Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd**.

Cwestiynau nas gofynnwyd

215.Os nad yw cwestiwn a gyflwynwyd yn cael ei dynnu'n ôl cyn y Cyfarfod Llawn perthnasol, ond nad yw'n cael ei ofyn am unrhyw reswm, bydd wedyn yn dod yn gwestiwn "nas gofynnwyd". Efallai y bydd y Llywodraeth serch hynny yn rhoi ateb ysgrifenedig i gwestiynau o'r fath, sydd wedyn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â Chofnod y Trafodion.

Cwestiynau nas cyrhaeddwyd

216.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.66, os na chyrhaeddir unrhyw gwestiwn sydd wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Aelod gael ateb ysgrifenedig ar yr un diwrnod. Cyhoeddir yr ateb ysgrifenedig yng **Nghofnod y Trafodion**.

Cwestiynau Ysgrifenedig

217.Yn unol â Rheol Sefydlog 14.1, gall Aelodau hefyd gyflwyno cwestiynau'n benodol i gael ateb ysgrifenedig. Nid oes cyfyngiad ar nifer y cwestiynau ysgrifenedig y gall Aelod eu cyflwyno. Y confensiwn yw y bydd y Llywodraeth yn rhoi ateb o fewn pum niwrnod gwaith, a bydd pob ateb ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi mewn bwletin dyddiol ochr y ochr â **Chofnod y Trafodion**. Nid yw cwestiynau ysgrifenedig yn rhan o drafodion y Cyfarfod Llawn.

Datganiadau llafar

Mathau o ddatganiadau llafar

218.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.50, caniateir i ddatganiadau llafar gael eu gwneud gan yr unigolion canlynol:

- y Llywydd;
- aelod o Lywodraeth Cymru;
- aelod o'r Comisiwn am unrhyw fater sy'n dod o fewn cyfrifoldebau'r Comisiwn; ac
- unrhyw Aelod arall, lle mae pwnc y datganiad yn ymwneud ag un o swyddogaethau'r Senedd y mae'n gyfrifol amdani, gyda chytundeb y Llywydd (gallai hyn gynnwys, er enghraifft, datganiad rhagarweiniol am eitem o ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnig gan Aelod gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth honno), a 'datganiadau 90 eiliad' gan Aelodau unigol, y ceir amser ar eu cyfer bob dydd Mercher.

219.Mae'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes yn fath penodol arall o ddatganiad llafar. Mae gwybodaeth fanwl am hyn ym mharagraffau 81 - 82.

Hysbysiad am ddatganiadau llafar

220.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.16, caniateir gwneud datganiadau gan y Llywydd, aelod o Lywodraeth Cymru neu Gomisiwn y Senedd heb hysbysiad. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gellir eu hychwanegu at agenda'r Cyfarfod Llawn ar unrhyw bwynt. Mae hyn yn wahanol i'r gofyniad am hysbysiad o bum niwrnod ar gyfer dadleuon neu benderfyniadau ar gynigion (oni bai fod y Rheol Sefydlog berthnasol wedi'i hatal dros dro - mae gwybodaeth ym mharagraffau 134 - 137 am atal y Rheolau Sefydlog).

Amseru a hyd datganiadau llafar

221.Fel arfer, rhoddir terfyn amser ar ddatganiadau yn Agenda'r Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae wedi dod yn arfer i ddatganiadau beidio â bod yn hwy na 1,000 o eiriau neu 10 munud er mwyn caniatáu digon o amser i Aelodau holi'r Aelod sy'n gwneud y datganiad.

Cwestiynau am ddatganiadau llafar

222.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.51, caiff y Llywydd ganiatáu i gwestiynau gael eu gofyn i Aelod sy'n gwneud datganiad.

223.Llefarwyr y pleidiau a elwir yn gyntaf fel arfer i ofyn cwestiynau, ac wedyn unrhyw Aelod arall sydd wedi mynegi dymuniad i siarad. Gelwir Aelodau yn ôl disgresiwn y Llywydd.

224.Nid oes terfyn amser penodol ar gyfraniadau unigol. Mae arfer derbyniol wedi datblygu lle y caniateir i lefarwyr y pleidiau roi rhagymadrodd byr cyn gofyn eu cwestiynau. Dylai siaradwyr eraill ofyn dau gwestiwn ar y mwyaf a dylai'r cwestiynau hynny fod yn gryno.

Ymyriadau yn ystod datganiadau llafar

225.Yn ôl confensiwn, ni ddylai Aelodau ymyrryd fel arfer yn ystod datganiad gan Aelod.

Datganiadau personol

226.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.52, caiff y Llywydd roi caniatâd i Aelod wneud datganiad personol ar yr amod y caiff hysbysiad ysgrifenedig am ei fwriad i wneud hynny ymlaen llaw.

227.Mae Rheol Sefydlog 12.53 yn mynnu bod datganiadau personol yn fyr ac yn ffeithiol. Mae hefyd yn pennu na all datganiadau personol fod yn destun dadl. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na ellir galw Aelod arall i gyfrannu at eitem fusnes o'r fath.

228.Bu'r achlysuron pan gafwyd datganiadau personol yn brin, mewn gwirionedd, ac fe'u gwneir, er enghraifft, pan fydd Aelodau wedi croesi'r llawr neu wedi ymddiswyddo fel cadeirydd pwyllgor.

Datganiadau 90 Eiliad

229.Yn dilyn cwestiynau ar ddydd Mercher, caiff Aelodau wneud datganiad yn para dim hwy na 90 eiliad i godi unrhyw bwnc o bwys. Er enghraifft, gall Aelodau godi materion o bryder brys i'w hetholwyr, tynnu sylw at faterion lleol, nodi dathliadau neu ddyddiadau arwyddocaol, neu dalu teyrnged.

230.Gofynnir i Aelodau gyflwyno cais i fewnflwch Ceisiadau'r Cyfarfod Llawn, gyda throsolwg o'r pwnc. Os bydd gormod o geisiadau ar gyfer yr eitem, bydd y Llywydd yn dewis pa Aelodau i'w galw. Rhaid i'r datganiadau personol hyn hefyd fod yn gryno, yn ffeithiol ac ni ddylent fod yn destun dadl.

Datganiadau ysgrifenedig

231.Yn unol â Rheolau Sefydlog 14.6.a 14.7, caiff y Llywodraeth neu'r Comisiwn wneud datganiadau ysgrifenedig ar unrhyw fater sydd o fewn eu priod gyfrifoldebau.

232.Mae pob datganiad ysgrifenedig gan Weinidogion yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Senedd ochr yn ochr â Chofnod y Trafodion. Cyhoeddir pob datganiad ysgrifenedig y Llywodraeth ar wefan y Llywodraeth hefyd.

Materion brys

Cwestiynau llafar brys

233.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.66, caiff Aelodau wneud cais i'r Llywydd i ofyn cwestiynau llafar brys i Weinidogion neu i Gomisiynwyr. Trafodir y cwestiynau hyn heb hysbysiad ac mae'r rheolau ar gyfer eu cyflwyno yn wahanol i'r rhai ar gyfer cwestiynau llafar cyffredin. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gwestiynau llafar gan y Swyddfa Gyflwyno.

Meini prawf ar gyfer cwestiynau llafar brys

234.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.67(ii), ystyrir bod cwestiwn yn un brys dim ond os ydyw wedi codi'n sydyn a bod y Llywydd o'r farn ei fod o bwys cenedlaethol brys.

235.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.68, os bydd cwestiwn brys yn cael ei gyflwyno a hwnnw'n ymwneud â swyddogaethau Comisiwn y Senedd, gwneir y penderfyniad ynghylch a yw o bwys cenedlaethol gan y Dirprwy Lywydd yn hytrach na'r Llywydd. Gwneir hyn er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau o ganlyniad i rôl y Llywydd fel Cadeirydd y Comisiwn.

Amser ar gyfer cwestiynau llafar brys

236.Gellir trafod cwestiynau brys yn ystod y Cyfarfod Llawn ar unrhyw adeg a bennir gan y Llywydd ond mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol rhoi o leiaf ddwy awr o hysbysiad i'r Llywydd. Gan y bydd cwestiynau brys yn ymwneud â'r materion mwyaf pwysig yn unig, fe rhagwelir, yn amodol ar pryd y bydd y cwestiwn yn cael ei gyflwyno, y bydd y Llywydd fel arfer yn eu hamserlennu fel yr eitem gyntaf o fusnes yn y Cyfarfod Llawn.

237.Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn pennu amser ar gyfer cwestiynau brys ond, yr arfer yw neilltuo amser dangosol o 10 munud ar eu cyfer.

Cwestiynau atodol i gwestiynau llafar brys

238.Gellir galw Aelodau i ofyn cwestiynau atodol wedi i'r Gweinidog ateb y cwestiwn brys a gyflwynwyd. Gelwir Aelodau yn ôl disgresiwn y Llywydd a dim ond un cwestiwn atodol a ganiateir iddynt fel arfer.

Grwpio cwestiynau llafar brys

239.Mae cynsail ar gyfer grwpio cwestiynau llafar brys. Os bydd dau neu ragor o gwestiynau llafar brys yn cael eu grwpio, bydd yr amser dangosol o 10 munud ar gyfer pob cwestiwn yn cael ei gyfuno.

Dadleuon brys

240.Yn unol â Rheol Sefydlog 12.69, caniateir dadleuon brys mewn Cyfarfodydd Llawn ar sail cynnig gan unrhyw Aelod, yn amodol ar y weithdrefn a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog 12.69 - 12.71. Caniateir cynnal dadleuon brys ar faterion sydd o fewn cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru neu Gomisiwn y Senedd.

241.Rhaid i Aelod wneud cais i'r Llywydd am ddadl frys ar bwnc. Er mwyn i'r cais fynd yn ei flaen, rhaid i'r Llywydd fod yn fodlon bod y mater o bwys cyhoeddus brys. Os bydd y Llywydd yn cytuno, yna rhaid i'r Aelod wneud cais i'r Senedd gyfan i gynnal dadl; a dim ond os bydd y Senedd yn cytuno arni y cynhelir y ddadl. Yn ymarferol, oherwydd gweithdrefnau eraill sydd ar gael i Aelodau i godi materion brys, mae dadleuon brys wedi bod yn bethau cymharol brin: dim ond tair sydd wedi'u cynnal hyd yn hyn.

Y ddadl frys ei hun

242.Bydd dadleuon brys yn digwydd ar fater penodol, ac nid ar gynnig. Nid oes angen cyflwyno cynnig i gynnal dadl o'r fath ac, oherwydd hynny, ni chymerir pleidlais ar ddiwedd y ddadl. Mae dadleuon brys wedi'u bwriadu ar gyfer trafodaeth yn hytrach na phenderfyniad.

243.Bydd yr Aelod a'i cynigiodd yn agor pob dadl frys. Bydd Aelodau eraill sy'n dymuno siarad yn cael eu galw yn ôl disgresiwn y Llywydd. Gelwir y Gweinidog neu'r Comisiynydd perthnasol i siarad yn olaf ond un, cyn i'r Aelod a'i cynigiodd gloi'r ddadl.